# Dechreuad y Dirwasgiad

## Beth oedd prif achosion y Dirwasgiad?

Cyn y Rhyfel Mawr, roedd cyfoeth Prydain wedi dibynnu ar werthu nwyddau diwydiannol trwm fel glo a dur. Ond pan ddaeth y rhyfel i ben, dirywiodd y diwydiannau traddodiadol hŷn hyn. Cyfrannodd costau cynhyrchu cynyddol, dulliau anarferedig a diffyg buddsoddiad mewn technoleg a pheiriannau newydd at ddirywiad y diwydiannau hyn. Roedd llai o alw am nwyddau Prydeinig a mwy o gystadleuaeth o dramor, yn arbennig gan UDA a'r Almaen. Nid oedd y nwyddau Prydeinig drutach yn gallu cystadlu â nwyddau rhatach wedi'u mewnforio. I wneud y sefyllfa'n waeth, nid oedd marchnadoedd allforio traddodiadol Prydain cyn y rhyfel (gwledydd a oedd yn cynrychioli cryfder economaidd craidd yr Ymerodraeth, fel Awstralia, Canada a Seland Newydd) bellach yn barod i brynu nwyddau Prydeinig. Roedden nhw'n prynu dur o America, glo o'r Almaen a chotwm o India yn lle. Daeth hyn ag 'oes aur' honedig y diwydiant trwm yng Nghymru a Phrydain i ben. Pan ddaeth y Dirwasgiad economaidd byd-eang ddechrau'r 1930au, nid oedd hen ddiwydiannau Prydain yn gallu ymdopi.

## Cwymp Wall Street

Prif achos y Dirwasgiad oedd Cwymp Wall Street yn 1929. Achosodd cwymp marchnad stoc UDA argyfwng ariannol: rhoddodd rhai banciau mawr y gorau i fasnachu ac aeth llawer o fusnesau yn fethdalwyr. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn diweithdra a oedd yn ychwanegu eto at y problemau economaidd gan fod llai o wario. Wrth i ddiweithdra gynyddu, roedd llai o nwyddau'n cael eu gwerthu. I ddod â dirwasgiad i ben, mae angen perswadio pobl i brynu pethau, ond nid oedd llywodraeth UDA yn gwybod sut i wneud hynny.

Roedd arlywydd UDA, Herbert Hoover, yn bryderus iawn. Gan nad oedd yn sicr beth i'w wneud, gofynnodd i wledydd eraill ad-dalu'r arian mawr yr oedd UDA wedi'i fenthyca iddyn nhw. Rhoddodd rwystrau tollau ar waith hefyd trwy osod tollau uchel i rwystro nwyddau tramor rhag cael eu mewnforio. Ond yn lle amddiffyn America, y cyfan a wnaeth polisi Hoover oedd lledaenu'r Dirwasgiad i weddill y byd ac achosi cwymp economaidd pellach. Mae pobl yn dweud, 'Pan fydd America'n tisian, bydd gweddill y byd yn dal annwyd.'

## Effaith Cwymp Wall Street

### *(i) Cyflogaeth, diwydiant ac economi Prydain*

Arweiniodd yr argyfwng ariannol enfawr yn America, Cwymp Wall Street, at gwymp yr economi mwyaf, yr un mwyaf cyfoethog a'r un mwyaf pwerus yn y byd. Roedd Prydain, Ewrop a llawer o bwerau diwydiannol eraill y byd wedi dechrau dibynnu ar fenthyciadau gan America ac ar fasnachu â'r wlad. Cwympodd eu heconomi

hwythau pan gwympodd economi America. Dyma ddechrau cwymp byd-eang; roedd ei effeithiau ar Gymru a Lloegr yn drychinebus. Parodd y cwymp byd-eang mewn cynhyrchu a masnachu yn hirach nag yr oedd nifer o lywodraethau wedi’i ddychmygu; bu ei effaith hefyd yn fwy difrifol. Trodd y cwymp yn ddirwasgiad oherwydd ei fod yn effeithio ar gyflogwyr a gweithwyr cyflogedig. Aeth rhai busnesau i’r wal ac fe gafodd busnesau eraill drafferth goroesi. Daeth cwymp mewn cynhyrchiant gan fod llai a llai o archebion. Yn ei dro, arweiniodd hyn at ddiswyddo gweithwyr. Yn anffodus, cyfrannodd y dileu swyddi a’r diswyddiadau hyn at y Dirwasgiad, oherwydd bod mwy fyth o ostyngiad yn nifer yr archebion wrth i nifer y di-waith gynyddu.
Yn sicr, cafodd argyfwng 1929 effaith sylweddol ar economi Prydain, ond mae’n bosibl dadlau bod Prydain eisoes yn dioddef effeithiau dirywiad economaidd cyn yr argyfwng hwn. Yn 1921 daeth y ffyniant economaidd a fodolai cyn y rhyfel ddod i ben; arweiniodd hyn, ynghyd â chystadleuaeth gynyddol o dramor, trychineb Streic Gyffredinol 1926 a’r dirywiad yn y diwydiannau glo a dur, at ddinistrio economi Prydain. Felly, mae’n siŵr ei bod yn deg dweud bod argyfwng 1929 wedi gwneud sefyllfa ddrwg yn waeth fyth.

## *(ii) Effaith ar wleidyddiaeth Prydain*

Efallai mai ar wleidyddiaeth Prydain y cafodd argyfwng 1929 yr effaith fwyaf arwyddocaol. Wrth i’r argyfwng gyrraedd Prydain yn 1929, roedd nifer o wleidyddion wedi’u hargyhoeddi y byddai’r economi yn gwella’i hun. Roedden nhw’n teimlo y byddai’n well gadael i ddynion busnes ofalu am yr adferiad economaidd yn hytrach na’u bod nhw’n gwneud. Yn y tymor hir, byddai popeth yn iawn. Dyna oedd eu hymateb. Roedd yr economegydd enwog John Maynard Keynes yn anghytuno. ‘Yn y tymor hir, rydym ni i gyd yn marw,’ oedd ei ateb sinigaidd yntau. Roedd nifer llai o wleidyddion yn barod i gyfaddef nad oedd ganddyn nhw syniad sut i fynd ati i ddatrys yr argyfwng. Roedd gwleidyddion mwy radical, fel Syr Oswald Mosley o’r Blaid Lafur, yn galw ar y llywodraeth i wario ar greu swyddi, ac i osod tollau uchel ar nwyddau wedi’u mewnforio o dramor er mwyn amddiffyn diwydiant Prydain. Ceisiodd Keynes ac arweinydd yr wrthblaid Ryddfrydol, David Lloyd George berswadio’r llywodraeth i dderbyn cynllun gweithredu Mosley, ond gwrthod a wnaethon nhw. Fodd bynnag, gwaethygodd yr argyfwng, a chytunodd pawb i osod gwahaniaethau gwleidyddol y pleidiau o’r neilltu, fel yn ystod rhyfel. Sefydlwyd Llywodraeth Genedlaethol yn 1931. O dan arweiniad y gwleidydd Llafur Ramsay Macdonald, ceisiodd y llywodraeth glymblaid hon, sef Ceidwadwyr gan mwyaf gydag ambell AS Llafur a Rhyddfrydol, ymdopi â’r argyfwng economaidd a chymdeithasol a oedd yn gwaethygu.


## *(iii) Effaith ar bobl Prydain*

Collodd llawer o bobl eu swyddi o ganlyniad i’r Dirwasgiad. Nid oedd y di-waith yn derbyn cyflog, felly nid oedden nhw’n gallu prynu pethau. O ganlyniad, roedd mwy o fusnesau’n mynd yn fethdalwyr, a hynny yn ei dro yn creu mwy o ddiweithdra. Roedd yn gylch cythreulig a oedd yn gwaethygu gan mai prin dalu’r rhent, heb sôn am fwydo a gwisgo’r teulu, yr oedd y dôl a budd-daliadau diweithdra.

Ymateb y llywodraeth i’r argyfwng oedd ceisio torri costau. Targed cyntaf y toriadau hyn oedd y budd-daliadau ar gyfer y di-waith. Roedd gan ddyn heb waith hawl i fudd-dal o dan y cynllun yswiriant diweithdra, sef y dôl, a oedd yn cael ei dalu am y chwe mis cyntaf. Fodd bynnag, i fod yn gymwys i gael y dôl, roedd yn rhaid i weithiwr basio prawf modd a gyflwynwyd yn 1931. Sefydlwyd Pwyllgorau Cymorth Cyhoeddus i ymchwilio i sefyllfa ariannol teulu cyn rhannu budd-daliadau. Roedd natur ymwthiol y prawf modd, ac agwedd dideimlad rhai o’r swyddogion a oedd yn cynnal y prawf, yn cythruddo llawer o bobl ac yn gwneud iddyn nhw deimlo’n rhwystredig. Y gyfradd arferol ar gyfer y dôl oedd 15s. (75c) yr wythnos ar gyfer gŵr a gwraig, a thua 5s. (25c) ar gyfer pob plentyn. Roedd Cymdeithas Feddygol Prydain yn amcangyfrif bod ar deulu o ddau oedolyn a thri o blant angen o leiaf 22s. 7d. (£1.12) yr wythnos ar gyfer bwyd. I wneud pethau’n waeth, torrwyd 10% ar y dôl yn 1931. Roedd bywyd y di-waith yn galed iawn.

## Sut roedd pobl yn gallu ymdopi â sialensiau blynyddoedd y Dirwasgiad?

Un o brif effeithiau'r cwymp byd-eang mewn masnach a chynhyrchiant diwydiannol oedd y cynnydd aruthrol mewn diweithdra. Erbyn 1933 roedd dros 30 miliwn o bobl ledled y byd yn ddi-waith, tua 3 miliwn ym Mhrydain, tua 13 miliwn yn America a 6 miliwn yn yr Almaen. Yr ardaloedd a ddioddefodd waethaf oedd y rhai a oedd yn dal i ddibynnu ar yr hen ddiwydiannau trwm. Y ddwy ardal ym Mhrydain a deimlodd yr effaith waethaf, felly, oedd  de Cymru a gogledd-ddwyrain Lloegr. Erbyn 1938 roedd y gyfradd ddiweithdra ym mhob  un o'r pedwar diwydiant trwm sylfaenol, sef glo, cotwm, adeiladu llongau a dur ddwywaith cyfraddau diweithdra swyddi eraill. Yn yr ardaloedd hyn, ac yn y diwydiannau hyn, daeth diweithdra yn ffordd o fyw.



**Ffynhonnell A:** Glöwr a'i deulu, cwm Rhondda, 1931, cyn i ddiweithdra ar raddfa fawr ddod i'r cwm.
© Daily Herald Archive / getty images

## Effaith diweithdra ar raddfa fawr ar bobl yn yr ardaloedd diwydiannol

Roedd diweithdra ar raddfa fawr yn drychineb a arweiniodd at ymdeimlad o anobaith a cholli urddas. Roedd y cynnydd mewn diweithdra yn effeithio ar fenywod yn ogystal â dynion. Mewn sawl achos, y dyn oedd yr unig un a oedd yn ennill cyflog, felly roedd y teulu cyfan yn dioddef pan oedd yn colli ei swydd. Gorfodwyd menywod i ‘gadw’r ddeupen ynghyd’. Roedden nhw naill ai’n cynnal y cartref ar gyllideb gyfyngedig, neu os oedden nhw’n ffodus yn ceisio gwaith cyflogedig (am gyflog gwael yn aml) mewn gwasanaeth domestig neu yn y sector adwerthu fel cynorthwywyr siop. Arweiniodd diweithdra at dlodi a oedd yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pawb a oedd yn dioddef yn ei sgil. Mae adroddiad a ysgrifennwyd yn 1933 gan Dr Rankin, Prif Swyddog Meddygol Cyngor Dosbarth Gelligaer, yn rhoi tystiolaeth o effaith diweithdra a thlodi:

Unwaith eto, mae’r dosbarth wedi gweld epidemig parhaus o’r dwymyn goch dros y flwyddyn, a’r rhan fwyaf o’r achosion yn ddifrifol. Yn fy marn i, roedd y diffyg gallu i wrthsefyll ymosodiad yn gyffredinol a difrifoldeb y symptomau yn deillio o ddiffyg maeth cyffredinol ymysg y plant, o ganlyniad i’r amgylchiadau economaidd anffodus yn ne Cymru.[1]

Roedd cymunedau cyfan yn isel eu hysbryd, ac yn llefydd digalon i fyw. Yn ôl un llygad-dyst, Dora Cox, roedd y sefyllfa’n ddifrifol wael. Wrth gael ei chyfweld yn 1985, dywedodd:

A minnau’n byw yng Nghymru, roeddwn yn gallu gweld yn llawer cliriach sut roedd diweithdra yn diraddio ac yn dinistrio pobl, yn arbennig yn y cymoedd, lle nad oedd gobaith ar ôl. Roedd dynion yn sefyll ar gorneli stryd, heb syniad beth i’w wneud â nhw eu hunain – roedd pobl yn llwgu. Wel, doedd dim modd i chi beidio â chymryd rhan mewn unrhyw ymgyrch. Roedd ymgyrchu, o leiaf, yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn ymladd yn ôl, ac roeddech chi hefyd yn teimlo ei bod yn gwbl hanfodol sicrhau bod pobl eraill yn deall difrifoldeb y sefyllfa .[2]

Symudodd llawer o unigolion a theuluoedd yn sgil hyn, er mwyn mynd i chwilio am waith. Yn y 1930au, cynyddodd y mudo o ogledd-ddwyrain Lloegr a de Cymru i’r ardaloedd mwy cyfoethog yng nghanolbarth a de-ddwyrain Lloegr lle na welwyd llawer o effaith y Dirwasgiad.

## Ymateb i’r Dirwasgiad: protest

Yn annhebyg i Dylan Thomas, nid oedd hi mor hawdd i’r rhan fwyaf o bobl mewn ardaloedd diwydiannol traddodiadol ddianc rhag y Dirwasgiad. Roedd yn ymddangos fel nad oedd y llywodraeth yn gallu ymdrin â’r Dirwasgiad ac felly argyhoeddwyd llawer o bobl nad oedd dim arall i’w wneud ond protestio. Efallai y byddai gwrthdystio ar raddfa fawr, gyda chefnogaeth y cyhoedd a llawer o gyhoeddusrwydd, yn gorfodi’r llywodraeth i gymryd camau cadarnhaol. Cymerodd

[1] *Medical officer of health reports*, 1920-39 (Casgliad Bwrdd Iechyd Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Galeri 2).
[2] G. E. Jones and T. Herbert (eds.), *Wales between the Wars* (Caerdydd, 1988).

miloedd o bobl ran mewn ymgyrch i wrthwynebu'r Dirwasgiad a phrotestio yn erbyn ei effeithiau a'r diweithdra a'r caledi parhaus. Mewn llythyr yn 1935 at Syr John Gilmour, dywedodd W. H. Mainwaring, yr Ysgrifennydd Cartref ac AS y Rhondda:

Efallai y gall y Gweinidog wneud rhyw fath o ymgais i ddychmygu sut mae pobl yn y Rhondda yn teimlo, os dywedaf wrtho y bu 100,000 o bobl, ac mae poblogaeth o 140,000 yno, yn gwrthdystio yma wythnos i ddoe. Heblaw'r rheini a oedd yn yr ysbyty, nid oedd neb yn y dosbarth nad oedd yn gwrthdystio. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr un peth yn digwydd yn Llundain.[3]

Ategwyd pryder Mainwaring, a oedd am dynnu sylw at drafferthion y di-waith yn ei etholaeth, mewn erthygl a gyhoeddwyd yn y papur newydd lleol, y Rhondda Leader:

Mae'r bobl sydd wedi byw yn y cwm trwy gydol eu hoes yn sicr nad ydyn nhw erioed wedi gweld protest o'r fath. Nid mudiad a ddechreuwyd gan un blaid benodol mohono, ond ffrynt unedig o Swyddogion Undebau, Comiwnyddion, Gweinidogion yr Efengyl, gwŷr busnes a dynion proffesiynol, gydag Aelodau Seneddol, Ynadon a Chynghorwyr yn sefyll ochr yn ochr â phob rhan o'r gymdeithas.[4]

Nid pawb oedd yn cydymdeimlo â'r problemau yr oedd y di-waith yng Nghymru yn eu dioddef, fodd bynnag. Roedd pamffled o'r enw 'What's Wrong with Wales' (a gyhoeddwyd gan gylchgrawn y New Statesman and Nation yn 1935) yn credu bod y tlodi a'r caledi yng Nghymru yr adroddwyd amdano wedi cael ei orliwio:

Rhoddwyd cynnig ar gynifer o atebion, heb lwyddiant. Mae De Cymru yn ein diflasu. Mae fel babi'n crio yn nwylo mam anwybodus. Mae un o adrannau'r llywodraeth yn ei bwrw, ac un arall yn ei chusanu. Pam nad aiff i gysgu fel Swydd Dorset?[5]




**Ffynhonell B**: Gweithwyr di-waith yn gorymdeithio trwy Fryste yn 1931.

© Richards / Stringer / getty images

Yn 1936, aeth y Brenin Edward VIII ar daith i Gymru i weld â'i lygaid ei hun y caledi a'r tlodi a achoswyd gan y Dirwasgiad. Roedd yr hyn a welodd yn amlwg yn ei boeni a'r straeon a glywodd gan y di-waith yn ei ddychryn. Yn ôl y sôn, dywedodd, 'Mae'n rhaid gwneud rhywbeth.' Yn anffodus, ni chafodd dim ei wneud. Efallai bod y detholiad canlynol o lythyr at y Brenin Edward gan rai o drigolion Pont-y-pŵl, a gyhoeddwyd ym mhapur newydd y Western Mail ym mis Tachwedd 1936, yn awgrymu pam na chafodd dim ei wneud:

Heddiw, byddwch yn ymweld â threfi a phentrefi ein cymoedd, a chwm sy'n marw o dan law drom tlodi. Yn anffodus, cynlluniwyd eich taith mewn ffordd sy'n golygu na fyddwch yn gweld effeithiau ofnadwy'r tlodi hwn.[6]

[3] G. E. Jones a T. Herbert (eds.), *Wales between the Wars* (Caerdydd, 1988).
[4] *Rhondda Leader*, 1935.
[5] *New Statesman and Nation*, 1935.
[6] *Western Mail*, 1936.

## Gorymdeithiau newyn a'u heffaith

Yn ystod y 1930au, yn ogystal â phrotestio lleol, roedd llawer o orymdeithiau protest o ogledd-ddwyrain Lloegr a de Cymru hefyd. Roedd y bobl a oedd yn byw yn yr ardaloedd hyn yn mynd yn fwy milwriaethus am eu bod wedi dioddef lefelau uchel o ddiweithdra, tlodi, diffyg maeth ac afiechyd ers cryn amser. Roedd hi'n ymddangos nad oedd y llywodraeth yn gallu ymdopi â'r problemau, neu yn waeth fyth nad oedden nhw'n malio dim am ddioddefaint y bobl dlawd. Nid oedd protestio yn yr ardaloedd lle'r oedd y di-waith yn byw yn cael fawr o effaith ar y llywodraeth, felly penderfynwyd ehangu'r brotest. Trefnwyd gorymdeithiau i Lundain i wynebu'r llywodraeth. Wrth wneud hynny, y gobaith oedd y byddai'r gweithwyr yn ennill y cyhoeddusrwydd yr oedd ei angen, ac y byddai'r cyfryngau'n cael eu hannog i roi sylw i'w stori a dangos eu dioddefaint i weddill y wlad.

Ym mis Hydref 1932, gorymdeithiodd 2,500 o weithwyr o bob cwr i Lundain. Chwaraeodd undebwyr llafur rôl enfawr wrth drefnu'r orymdaith a threfnu bwyd a llety ar gyfer y gorymdeithwyr. Cafodd deiseb ei chyflwyno gerbron y Senedd yn mynnu dileu'r prawf modd ac yn protestio am y toriad o 10% i fudd-daliadau. Efallai mai'r orymdaith brotest enwocaf oedd Crwsâd Jarrow 1936, ond roedd gorymdeithiau o dde Cymru hefyd. Roedd y rhan fwyaf yn mynnu pethau tebyg – roedden nhw am weld y llywodraeth yn gweithredu trwy greu swyddi, ac am sicrhau gwell budd-daliadau ar gyfer y di-waith.




**Ffynhonell C**: Gorymdeithwyr Jarrow ar y ffordd i Lundain. @ Pictorial Press / Alamy

Mae barn haneswyr wedi'i rhannu ynglŷn ag effaith y gorymdeithiau protest hyn.

Roedd barn cyfoeswyr, hyd yn oed, wedi'i rhannu o ran pa mor effeithiol oedd y gorymdeithiau. Er enghraifft, adroddwyd y canlynol mewn papur newydd o Gymru, yr Aberdare Leader:

Er mor danbaid yw'r gwrthwynebiad yn y cymoedd i'r Prawf Modd newydd, awyrgylch rali Ysgol Sul oedd i'r orymdaith. Roedd pobl yn gwenu, yn dweud jôcs ac yn chwerthin dros bob man. Roedd dynion yn gwisgo siwtiau a chotiau uchaf smart; roedd dynion ifanc, llawer ohonyn nhw'n ddi-waith, yn gwisgo dillad wedi'u torri'n drwsiadus, esgidiau sgleiniog, a hyd yn oed menig melyn, gan edrych yn ffasiynol iawn; roedd menywod ifanc yn cerdded mewn hetiau deniadol, cotiau trwsiadus ac esgidiau sodlau uchel twt. O'r tu allan, nid oedd y tlodi na'r angen yr oedd y rhan fwyaf o deuluoedd y di- waith yn eu dioddef yn amlwg iawn. Mae'n siŵr y byddai cefnogwr glas Torïaidd y Llywodraeth Genedlaethol wedi pwyntio bys cyhuddgar a dweud, 'Hy! Ble mae eich tlodi a'ch caledi?'[7]

Fel yr oedd y papur newydd wedi'i ofni, nid oedd y gorymdeithiau wedi gwneud argraff dda iawn ar rai o weinidogion y llywodraeth. Yn 1936, adroddodd papur newydd Llundain The Times ar araith a roddodd Syr Thomas Inskip, y Gweinidog Amddiffyn, gerbron y Senedd:

Rydym yn clywed ychydig gormod am ardaloedd difreintiedig, a dim digon am yr hyn y mae ysbryd yr ardaloedd hyn wedi'i gyflawni i sicrhau eu hadferiad eu hun.[8]

Dywedodd golygydd papur newydd y Daily Worker, a oedd yn amlwg yn teimlo'n rhwystredig:

Ni chafodd y Gorymdeithiau Newyn na'r gwrthdystiadau mawr yn Llundain eu crybwyll o gwbl mewn unrhyw glip newyddion. Rwyf wedi bod yn chwilio amdanyn nhw yn sinemâu Llundain, ond ni allaf weld dim; rwy'n tybio bod yr un peth yn wir am bob sinema leol. Felly, mae'r clipiau newyddion yn parhau i gael eu hystumio a'u hatal . . . Nid yw'r Gorymdeithiau Newyn na'r gwrthdystiadau yn newyddion; ond mae ymweliad y Dywysoges Ingrid yn newyddion pwysig iawn, yn ogystal ag ymweliad tîm pêl-droed Arsenal â Ffrainc, a menyw yn siglo gerfydd ei dannedd dros Efrog Newydd, ac ati.[9]

Wrth gyrraedd Llundain, ac ar ôl cerdded tua 300 milltir, daeth y canlynol i gyfarfod â gorymdeithwyr Jarrow:

Esgob Jarrow Syr John Jarvis, Barwnig, AS, Arglwydd Faer Llundain yr Arglwydd Snell, Cadeirydd Cyngor Sir Llundain Ellen Wilkinson, AS, y Cynghorydd R. I. Dodds, cyn-Faer Jarrow

Roedd trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cyfarfod arbennig yn Neuadd Goffa Farringdon, Llundain, a byddai deiseb yn cael ei chyflwyno gerbron y llywodraeth ar ôl hyn. Ni ddaeth ymateb gan y llywodraeth. Daeth yr unig lygedyn o gydymdeimlad at y gorymdeithwyr gan Bwyllgor Cymorth Cyhoeddus y Gogledd-ddwyrain; argymhellodd bod Pwyllgor Cymorth Cyhoeddus Swydd Durham yn talu lwfansau i deulu dibynnol y dynion a oedd yn cymryd rhan yn yr orymdaith. Fodd bynnag, mae bron yn amhosibl

[7] *Aberdare Leader*, 1936.
[8] *The Times*, 1935.
[9] *Daily Worker*, 1935.

peidio â dod i'r casgliad na chafodd gorymdeithwyr Jarrow fawr o effaith ar y llywodraeth, er iddyn nhw ennill llawer o gyhoeddusrwydd.

Mae'r hanesydd A. J. P. Taylor yn gwerthuso pa mor effeithiol oedd y gorymdeithiau newyn a'r gorymdeithiau am swyddi mewn ffordd fwy cytbwys:

Gorymdeithiodd bandiau dethol o bobl ddi-waith o'r ardaloedd difreintiedig i Lundain, ond heb wir lwyddo yn eu bwriad. Roedd eu taith trwy'r wlad, fodd bynnag, yn bropaganda hynod o effeithiol. Roedd y gorymdeithwyr newyn yn tynnu sylw at fethiannau cyfalafiaeth. Roedd cydwybod euog pobl y dosbarth canol yn cnoi. Sefydlon nhw geginau cawl ar gyfer y gorymdeithwyr a rhoi llety iddyn nhw mewn ysgolion lleol.[10]

## 'Cael deupen llinyn ynghyd', hunangymorth a chyfraniad menywod;

Daeth 'cwlt y cartref', a oedd yn gysylltiedig â chylchgronau poblogaidd fel Woman, yn boblogaidd eto yn ystod y 1930au. Gan fod prif ideoleg y cyfnod yn mynnu mai yn y cartref yr oedd lle'r wraig tŷ, prin iawn oedd y menywod a lwyddodd i dorri'n rhydd o gyfyngiadau'r cartref a mentro i fyd cyhoeddus gwleidyddiaeth, masnach a'r proffesiynau. Yr unig gyfle a oedd ar gael i'r rhan fwyaf o fenywod oedd mewn gwasanaeth domestig neu yn y fasnach adwerthu fel cynorthwywyr siop. Yn ystod y cyfnod hwn, yn y cartref yn unig yr oedd gan lawer o fenywod unrhyw ddylanwad ac awdurdod; gallai hyn esbonio pam y cynyddodd cyfraddau priodi yn gyflym. Roedd cynnal y cartref ar ychydig o arian yn unig, a 'chael deupen llinyn ynghyd', yn achosi straen a phryder parhaus i fenywod a oedd yn gweithio oriau hir iawn yn y frwydr yn erbyn tlodi a budreddi. Yn ôl adroddiad a luniwyd gan Ymddiriedolaeth Pilgrim, Men Without Work, a gyhoeddwyd yn 1938, roedd y drefn feunyddiol ddiddiwedd hon o weithio'n galed yn cael effaith ddinistriol ar falchder, ymddangosiad ac iechyd menywod:

Yr hyn a oedd yn eithriadol am lawer o'r cartrefi hyn oedd safonau uchel glendid personol y dynion; roedden nhw'n uwch na'r disgwyl, o ystyried yr amodau byw. Roedd yn ymddangos, ar y cyfan, mai'r menywod a oedd wedi colli pob balchder yn eu hymddangosiad personol ac yn ymddangosiad eu cartrefi. Rhaid i ni wynebu'r ffaith bod profi'r safon byw isaf yn barhaus, a byw o'r llaw i'r genau, gyfystyr â chael eich trechu, i bawb heblaw'r eneidiau dewraf.[11]

Daeth yr hanesydd Deirdre Beddoe i'r casgliad canlynol: 'Roedd rhagolygon cyflogaeth menywod yn druenus, ac nid oedd bywyd yn y cartref, nac iechyd menywod ychwaith, yn fêl i gyd.' Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer cynyddol o fenywod wedi cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd i berswadio'r llywodraeth i newid ei pholisi economaidd ac atal toriadau i fudd-daliadau. Daeth yn amlwg i lawer nad oedden nhw'n gallu dibynnu ar gymorth gan yr awdurdodau, gan

[10] A. J. P. Taylor, *English History 1914–1945. Oxford History of England* cyf. 15 (Rhydychen, 1965).
[11] *Men Without Work* (Caergrawnt, 1938).

‘estroniaid’, ac mai ‘hunangymorth’ oedd yr unig ffordd i’r gymuned wneud cynnydd. Felly, yn ne Cymru, roedd ymgyrch o dan arweiniad y menywod i berswadio perchenogion y pyllau glo i ddarparu baddondai pen pwll yn llwyddiannus. Cymerodd llawer o fenywod ran yn y gorymdeithiau newyn, ac roedd menywod eraill yn trefnu eu gwrthdystiadau eu hunain. Er enghraifft, yn 1935, ymosododd menywod o gymoedd de Cymru ar swyddfeydd y Bwrdd Cymorth i’r Di-waith ym Merthyr. Yn ei nofel We Live, mae Lewis Jones wedi llwyddo i bortreadu profiad rhai menywod a fu’n gwrthdystio:

Hanner awr cyn i’r gwrthdystiad ddechrau, roedd y menywod a’r plant a’r dynion di-waith mewn rhes ar y stryd a baner goch o’u blaen â’r geiriau ‘Bara, nid Batonau, sydd ei angen ar Fenywod Sunny Bank’.[12] Mae’n amlwg bod y Dirwasgiad wedi cael effaith sylweddol ar fywydau menywod yn ystod y 1930au.

## Dianc: adloniant a chwaraeon

Er gwaethaf y Dirwasgiad a diweithdra, roedd y blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd yn gyfoethog o ran cyfleoedd i bobl eu mwynhau eu hunain. Daeth hamdden fforddiadwy yn nodwedd bwysig o fywyd bob dydd y miloedd a oedd heb ddim i’w wneud â’u hamser. Byddai pobl yn mynd i’r rasys i fetio ar y cŵn neu’r ceffylau, yn mynd i gêm bêl-droed neu rygbi, yn mynd i glybiau neu hyd yn oed i’r llyfrgelloedd am ddim i ddarllen llyfrau a phapurau newydd. Gallen nhw hefyd fanteisio ar dechnoleg fodern i gael adloniant sain – trwy’r radio yn y cartref, neu adloniant sain a llun yn y sinema leol.

Daeth y set radio gyntaf, a oedd yn cael ei galw’n ‘weiarles’ yn aml, i Brydain yn 1922. Roedd prynu’r setiau radio neu’r weiarles cyntaf yn ddrud a’u trwyddedu yn gostus. Ond o fewn ychydig flynyddoedd, daeth masgynhyrchu â’r pris i lawr i lefel y gallai’r rhan fwyaf o bobl ei fforddio. Yn 1926, sefydlwyd Corfforaeth Darlledu Prydain (BBC: *British Broadcasting Corporation*) i redeg y gwasanaeth radio cenedlaethol newydd. Ei thasg oedd rhoi gwybodaeth i’r cyhoedd a darparu adloniant ar eu cyfer. Roedd yn gwneud hyn drwy gyfrwng cyfuniad o theatr byw, cerddoriaeth glasurol a rhaglenni newyddion. Yn fuan, roedd y BBC yn darlledu rhaglenni ysgolion, dramâu, cerddoriaeth boblogaidd a chomedi. Rhwng 1929 ac 1933 roedd gwerthiant trwyddedau radio a gofrestrwyd gan Swyddfa’r Post wedi dyblu. Dros gyfnod o flwyddyn (1937) prynwyd 56,970 o drwyddedau weiarles yng Nghaerdydd, sef tua un i bob cartref. Cost trwydded radio ar gyfartaledd oedd 15s. (75c). Yn 1937, ar ôl blynyddoedd maith o ymgyrchu, perswadiwyd y BBC i sefydlu gwasanaeth Cymraeg wedi’i leoli yng Nghaerdydd i wasanaethu ar gyfer anghenion Cymru a’i phobl. Erbyn 1939 roedd bron 75 y cant o deuluoedd Prydain yn berchen ar set weiarles.

[12] Lewis Jones, *We Live* (Llundain, 1937).

Y gystadleuaeth fwyaf i'r radio oedd y sinema. Am bris tocyn chwe cheiniog (2c), roedd y sinema'n cynnig dihangfa i lawer o bobl rhag realiti caled bywyd go iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r ffilmiau a oedd yn cael eu dangos yn sinemâu Prydain yn Americanaidd, wedi'u gwneud yn Hollywood. Daeth sêr ffilmiau fel Clark Gable, Greta Garbo ac Errol Flynn yn enwog ym mhedwar ban byd. Breuddwyd pawb a oedd yn mynd i'r sinema oedd cyfarfod ag arwyr y sgrin, neu ddod eu hunain yn sêr ffilm. Yn ystod y 1930au gwireddwyd breuddwyd un Cymro, Raymond Truscott-Jones o Cadoxton yng Nghastell-nedd, wrth iddo adael Cymru a dod yn enwog fel yr actor Hollywood Ray Milland.

Wrth i'r sinema ddod yn fwyfwy poblogaidd, cynyddodd y buddsoddi mewn ffilmiau ac adeiladau hefyd. Erbyn 1939 roedd 4,776 o sinemâu ym Mhrydain a'r rheini'n gwerthu bron 23 miliwn o docynnau bob wythnos, ar gyfartaledd. Roedd y BBC yn ofni y byddai'r sinema'n disodli'r radio fel y math mwyaf poblogaidd o adloniant. Yn 1936 dechreuodd y BBC ddarllediadau teledu byw, ond roedd y math newydd hwn o adloniant, 'sinema yn y cartref', yn rhy ddrud o lawer i'r rhan fwyaf o bobl. Erbyn 1939 dim ond 50,000 o wylwyr oedd.

Gwnaeth y nofelydd enwog George Orwell sylw ar ddylanwad pwerus y sinema yn ei lyfr, The Road to Wigan Pier, a gyhoeddwyd yn 1937:

Mewn bron degawd o ddirwasgiad, y ddau beth sydd wedi gwneud y mwyaf o wahaniaeth, mae'n siŵr, yw ffilmiau a masgynhyrchu dillad trwsiadus, rhad. Gall dyn ifanc 20 oed, am £2 10s. [£2.50] ar hurbwrcas, brynu siwt; gall y ferch edrych yn ffasiynol am brisiau hyd yn oed yn is. Mae'n bosibl mai tair dimai sydd gennych yn eich poced a'ch bod heb ragolygon o fath yn y byd, bod gennych gornel ystafell wely sy'n gollwng gartref, ond yn eich dillad newydd, gallwch sefyll ar gornel stryd yn ymbleseru mewn breuddwydio am fod yn Clark Gable neu'n Greta Garbo, sy'n gwneud iawn am lawer.[13]

Y chwaraeon mwyaf poblogaidd yn ardaloedd diwydiannol de Cymru a gogledd Lloegr oedd rygbi (undeb a chynghrair), pêl-droed a bocsio. Bocsio oedd camp y dosbarth gwaith, ac yn ystod Dirwasgiad y 1930au, daeth yn boblogaidd iawn. I lawer o bobl, roedd bocsio'n ffordd o ddianc rhag tlodi a diweithdra. Roedd clybiau lleol yn trefnu bowtiau lle byddai'r bocswyr yn cael eu talu. Y nod oedd bod yn bencampwr bocsio, ond nid llawer oedd yn llwyddo. Efallai mai Tommy Farr, paffiwr ffair di-waith o Donypandy, oedd y bocsiwr mwyaf llwyddiannus o Gymru. Roedd yn cael ei gofio fel 'y dyn y bu bron iddo drechu Joe Lewis' (pencampwr y byd o America)

## Delio â'r problemau a achoswyd gan y Dirwasgiad

### *(i) Delio â diweithdra*

Wrth i ddiweithdra barhau i gynyddu, roedd y llywodraeth yn wynebu problem

[13] George Orwell, *The Road to Wigan Pier* (Llundain, 1937).

newydd, sef sut i ddelio â'r bobl a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir. Y rhain oedd y bobl a oedd wedi bod yn ddi-waith am dros chwe mis ac a oedd wedi defnyddio eu dôl. Wrth i gostau budd- daliadau godi, daeth galw i'w torri ymhellach. Mewn ymdrech i osgoi cyhoeddusrwydd gwael, pasiodd y llywodraeth Ddeddf Diweithdra 1934 i sefydlu'r Byrddau Cymorth Diweithdra (*UABs: Unemployment Assistance Boards*).

Roedd y byrddau hyn yn gyfrifol am reoli'r prawf modd a gwneud yn siŵr bod budd-daliadau'n cael eu talu i'r rheini a oedd 'mewn gwir angen' yn unig a dim ond os oedden nhw'n 'gwneud pob ymdrech i chwilio am waith'. Roedd y modd yr oedd y bobl a oedd 'mewn gwir angen' yn cael eu diffinio yn amrywio o ardal i ardal, gan fod rhai byrddau'n gweithredu'r prawf modd yn fwy trwyadl na'i gilydd. I ddatrys yr anghydraddoldeb hwn, penderfynodd y llywodraeth y byddai cyfraddau budd-daliadau diweithdra, o 1934 ymlaen, yn cael eu pennu'n genedlaethol yn hytrach na'n lleol. Yn ogystal, roedd Deddf Diweithdra 1934 yn gwahanu'r dôl a budd-daliadau yswiriant, ac yn cael gwared ar y toriad o 10 y cant i'r dôl.

O 1936 ymlaen, daeth y byrddau yn gyfrifol am ddelio â gweithwyr a oedd wedi defnyddio eu budd-daliadau yswiriant. Cymerodd y byrddau rywfaint o waith y Cyfnewidfeydd Llafur (*Labour Exchanges*) a pharhau i weinyddu'r dôl a'r prawf modd. Roedd swyddogion y byrddau yn llai llym na'r swyddogion a oedd yn rhedeg y Pwyllgorau Cymorth Cyhoeddus. Sefydlodd y byrddau gynlluniau hyfforddi ac roedden nhw'n rhoi help i weithwyr a oedd am symud i ardaloedd eraill i chwilio am waith. Roedd y gymdeithas yn dechrau derbyn nad methiant ar ran y bobl oedd diweithdra a chwalwyd y camargraff y gallai pobl dlawd weithio pe baen nhw wir yn dymuno gwneud hynny.

### *(ii) Creu diwydiannau ysgafn newydd*

Wrth i'r diwydiannau trwm traddodiadol ddirywio, daeth diwydiannau ysgafn newydd yn eu lle. Roedd y diwydiannau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar nwyddau traul fel ceir, poptai, oergelloedd a setiau radio. Roedd y nwyddau'n cael eu masgynhyrchu mewn ffatrïoedd modern a oedd â'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer marchnad a oedd yn ehangu'n gyflym. Roedd hysbysebu cyffredinol yn annog defnyddwyr i brynu'r ceir newydd, y setiau radio a'r dyfeisiau i'r cartref ar y system hurbwrcas newydd. Roedd y system gredyd newydd hon yn golygu y gallai'r defnyddiwr cyffredin brynu hyd yn oed yr eitemau drutaf.

Pan roddwyd dulliau masgynhyrchu ar waith yn y diwydiant ceir modur, cododd nifer y ceir a werthwyd ym Mhrydain o 132,000 yn 1913 i tua 2 filiwn yn 1938. Yn 1923 y car mwyaf poblogaidd ar y farchnad oedd yr Austin 7 a oedd yn cael ei werthu am £225, ond erbyn 1936 roedd y pris wedi gostwng i £125. Roedd angen ffynhonnell bŵer newydd ac effeithlon ar y dechnoleg a'r peiriannau newydd a oedd yn cael

eu defnyddio yn y diwydiannau ysgafn hyn a oedd yn tyfu. Y ffynhonnell bŵer hon oedd: trydan. Roedd trydan yn lân, yn rhad ac yn effeithlon a dechreuodd ddisodli glo fel prif gyflenwad tanwydd y genedl. Yn 1926 sefydlwyd y Bwrdd Trydan Canolog i gyflenwi anghenion y diwydiant, ond rhoddwyd cyfle i gartrefi Prydain 'ddefnyddio'r prif gyflenwad' hefyd. Rhwng 1920 ac 1938 cynyddodd nifer y defnyddwyr a oedd yn cael cyflenwad trydan o 730,000 i 9,000,000.

Roedd y llywodraeth yn annog y diwydiannau newydd hyn trwy gynnig grantiau a thrwy sefydlu ystadau diwydiannol. Y gred oedd y byddai'r rheini a oedd wedi cael eu gwneud yn ddi-waith gan yr hen ddiwydiannau'n dod o hyd i swyddi yn y diwydiannau newydd. Ni ddigwyddodd hyn. Roedd llawer gormod o bobl yn colli eu swyddi, ac nid oedd y diwydiannau nwyddau traul newydd yn gallu rhoi swydd i bawb. Yn ogystal, roedd y sgiliau newydd yr oedd eu hangen i weithio yn y diwydiant nwyddau traul yn golygu ailhyfforddi, cost ychwanegol nad oedd y llywodraeth yn fodlon ei dalu. Ac eithrio'r diwydiant awyrennau a'r diwydiant cemegau newydd, roedd ffatrïoedd y diwydiannau ysgafn newydd hyn yn llawer llai ac yn cyflogi miliwn yn llai o bobl. Erbyn diwedd y 1930au dim ond 15 y cant o gyfanswm nwyddau allforio'r genedl yr oedd gwerthiant nwyddau traul Prydain yn cyfrif amdano.

### *(iii) Deddf yr Ardaloedd Arbennig*

Mewn ymgais bellach i ddenu diwydiannau i adleoli i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, pasiodd y llywodraeth Ddeddf yr Ardaloedd Arbennig yn 1934. Roedd y Ddeddf yn enwi De Cymru, Tyneside, Gorllewin Cumberland a'r Alban fel ardaloedd â gofynion cyflogaeth arbennig, ac roedd yn buddsoddi mewn projectau fel y gwaith dur newydd yng Nglynebwy.

Roedd llwyddiant y ddeddf wedi'i gyfyngu gan nad oedd lefel y buddsoddi – a oedd â chap o £2 filiwn – yn ddigon uchel. Ar ôl cael ei gweithredu am ddwy flynedd, dim ond 12,000 o swyddi ychwanegol oedd wedi cael eu creu. Cyfaddefodd y comisiynydd a benodwyd gan y llywodraeth i weithredu'r ddeddf, Syr Malcolm Stewart, '. . a siarad yn gyffredinol, rydym wedi methu.'

Roedd gwrthwynebwyr y llywodraeth yn y Senedd yn honni mai arwydd o ewyllys da yn unig oedd yr ardaloedd arbennig – ei bod yn bwysig i'r llywodraeth gael ei gweld yn gwneud rhywbeth. Yn eironig, roedd y ffigurau diweithdra yn yr ardaloedd arbennig hyn wedi gweld gostyngiad sylweddol erbyn 1938, ffaith yr oedd y llywodraeth yn ei defnyddio i gefnogi'r argraff mai ei pholisïau hi oedd wedi bod yn gyfrifol am y gwelliant. Fodd bynnag, prif achos y cwymp yn y gyfradd ddiweithdra oedd y ffaith bod gweithwyr yn mudo i'r ardaloedd mwy llewyrchus yng nghanolbarth Lloegr a de-ddwyrain Lloegr.

## Mudo ac ymfudo

Trwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hyd at ddechrau'r Rhyfel Mawr yn 1914, roedd Cymru wedi denu llawer o fewnfudwyr. Fodd bynnag, roedd y dirwasgiad ar ôl y rhyfel yn y 1920au, a Dirwasgiad Mawr y 1930au, wedi lleihau llif y mewnfudwyr yn sylweddol. O fewn ychydig o flynyddoedd, roedd mewnfudo cyn y rhyfel wedi troi yn fudo ar ôl y rhyfel, a hynny ar raddfa enfawr. Nid yw'r rhesymau am hyn yn anodd eu deall. Roedd diweithdra yn eang iawn, yn hirdymor ac yn ddifrifol yng Nghymru ac yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Yn wahanol i ogledd- ddwyrain Lloegr, roedd lefelau uchel iawn o allfudo o Gymru yn ystod y 1920au a'r 1930au. Amcangyfrifwyd bod 440,000 o bobl wedi gadael Cymru rhwng 1921 ac 1938. Fe wnaeth y mwyafrif, sef tua 85 y cant, adael cymoedd de Cymru, ym Morgannwg a Sir Fynwy. Erbyn 1933 roedd chwarter poblogaeth Doc Penfro, tua 3,500 o bobl, wedi mudo gan adael tref lle'r oedd 55 y cant yn ddi-waith (erbyn 1937).

Yn ystod y 1920au a'r 1930au, fe wnaeth nifer mawr o bobl Cymru a gogledd Lloegr adael Prydain yn gyfan gwbl. Roedd llawer o'r bobl hyn yn gweld Unol Daleithiau America yn wlad oedd yn llawn cyfleoedd.

Roedd dinasoedd disglair yno fel Efrog Newydd, Los Angeles a San Francisco; roedd Hollywood yno a jazz ond yn bwysicach fyth, roedd gwaith yno. Mewn un dref yn America, llwyddodd nifer mawr o bobl o Dredegyr i sefydlu eu cymuned Gymraeg eu hunain. Roedd llawer o bobl Cymru yn chwilio am waith yn Awstralia, Canada a Seland Newydd hefyd.

I'r rheini nad oedd am adael Prydain, yr unig ddewis arall oedd chwilio am waith yn ardaloedd llewyrchus Lloegr. Cafodd miloedd o weithwyr Cymru a'u teuluoedd eu hannog gan y llywodraeth i adael Cymru. Sefydlwyd cynllun gan y Weinyddiaeth Lafur i helpu gweithwyr di-waith a oedd yn fodlon symud i ardaloedd poblogaidd fel Llundain, Coventry, Watford, Slough a Rhydychen. Yno, roedden nhw'n cael eu cyflogi yn y diwydiannau peirianneg ysgafn a gweithgynhyrchu ceir. Un o'r cwmnïau a oedd yn cyflogi'r nifer mwyaf o weithwyr o Gymru oedd cwmni ceir modur Morris yn Cowley, Rhydychen.

Roedd llawer iawn o bobl yn mudo o Gymru i Loegr, ac arweiniodd hyn at ganlyniadau difrifol i rai rhannau o'r wlad. Bu gostyngiad o 13 y cant ym mhoblogaeth y Rhondda yn y 1920au, ac o bosibl cymaint ag 18 y cant yn y 1930au. Erbyn 1951 roedd tua 111,000 yn byw yno o'i gymharu â'r 162,000 o bobl oedd yno ugain mlynedd yn gynharach. Dioddefodd Merthyr Tudful ostyngiad yn ei phoblogaeth hefyd wrth i tua 26,600 o bobl adael y dref rhwng 1921 ac 1939. Dioddefodd Hartlepool a Gateshead yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ostyngiad sylweddol yn eu poblogaeth oherwydd mudo hefyd. Symudodd dros 20 y cant o'r boblogaeth i'r de i chwilio am waith.

Yng Nghymru, roedd y ffaith bod cynifer o bobl yn mudo ac yn ymfudo yn effeithio ar

ddiwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg.
Yn ôl yr hanesydd Deian Hopkin yn ei erthygl ‘Social Reactions to Economic Change’ (a gyhoeddwyd yn 1988):
Mae awgrym o newid demograffig yn yr ystadegau ar gyfer yr iaith Gymraeg. Bu gostyngiad dramatig yn nifer y siaradwyr uniaith Gymraeg – o 155,000 o siaradwyr uniaith Gymraeg yn 1921 i 97,000 erbyn 1931 ac mae’n siŵr i ddim mwy na 60,000 erbyn 1939. Ond y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol oedd fwyaf difrifol. Erbyn 1931 roedd y duedd ar i lawr wedi dechrau, a chyflymodd y patrwm hwn trwy gydol y cyfnod. Roedd y rheswm am hyn yn ymwneud llawer â’r ffaith bod sector sylweddol o’r boblogaeth yn ffoi.[14]

## Hen a newydd: a oedd dwy Brydain?

Yn ôl yr hanesydd Bryn O’Callaghan:
Roedd dwy Brydain yn y 1930au mewn gwirionedd. Prydain yr oedd ei bywoliaeth yn dibynnu ar yr hen brif ddiwydiannau fel glo ac adeiladu llongau. Prydain arall a oedd wedi’i chreu ar ddiwydiannau newydd a oedd yn gwneud cynnyrch newydd – cerbydau modur, nwyddau trydanol, ffibrau gwneud.[15]
Oni bai am ddifrifoldeb y Dirwasgiad yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, gallai’r disgrifiad hwn fod yn cymharu Cymru ddifreintiedig a Lloegr lewyrchus. Yn bendant, roedd ardal lewyrchus de-ddwyrain Lloegr yn fyd cwbl wahanol i ardal ddifreintiedig de-ddwyrain Cymru. Cafodd dinas Llundain a’r Siroedd Cartref o’i hamgylch eu trawsnewid yn sgil buddsoddi newydd, tai newydd, gwell ffyrdd a thrafnidiaeth rheilffordd effeithlon. Roedd yn rhatach ac yn haws i ddynion busnes a diwydianwyr sefydlu ffatri yn rhywle fel Slough nag yn rhywle fel Merthyr Tudful. Roedd gan Slough well cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ac roedd yn nes at Lundain, sef dinas o tua 6 miliwn o bobl. Gallai Llundain ac ardal ddwys ei phoblogaeth de-ddwyrain Lloegr gynnig gweithlu medrus a marchnad barod i brynu nwyddau. Roedd 80 y cant o’r ffatrïoedd newydd a gafodd eu hadeiladu a 65 y cant o’r swyddi newydd a gafodd eu creu rhwng 1931 ac 1937 wedi’u lleoli yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr. O’r tu allan, nid oedd llawer o arwyddion o dlodi i’w gweld yn yr ardaloedd hyn.
A dweud y gwir, yn yr ardaloedd hyn yr oedd y twf adeiladu, ac yn ôl yr hanesydd A. J. P. Taylor, dyma oedd ‘yn bennaf cyfrifol am adferiad y tridegau.’ Yn wir, yn 1935, dywedodd Neville Chamberlain, gweinidog yn y llywodraeth, ‘A siarad yn gyffredinol, gallwn ddweud ein bod wedi adfer 80 y cant o’n cyfoeth yn y wlad hon.’ Efallai bod siarad am adferiad economaidd yn y 1930au yn ymddangos yn gynamserol, os nad yn ansensitif, yn arbennig i’r miloedd o bobl ddi-waith a oedd yn byw yn yr ardaloedd arbennig honedig. Ond, mae’n ffaith bod tua thair miliwn o dai wedi cael eu hadeiladu a chwarter miliwn o dai slym wedi cael eu dymchwel rhwng 1932 ac 1935. Roedd y gweithgarwch hwn yn gyfrifol am dros 30 y cant o’r cynnydd mewn cyflogaeth erbyn 1939. Fodd bynnag, rhaid cofio bod yr hwb economaidd hwn, a’r

[14] Deian Hopkin, ‘Social Reactions to Economic Change’, yn Jones and Herbert (eds.), *Wales between the Wars* (Caerdydd, 1988).
[15] Bryn O’Callaghan, *A History of the Twentieth Century* (Llundain, 1987).

swyddi a grëwyd ganddo, wedi'i leoli yn ne-ddwyrain Lloegr a chanolbarth Lloegr ar y cyfan.



**Ffynhonell Ch**: Tai slym ym Mhrydain yn y 1930au. © Classic image / getty images

Mae rhai haneswyr diweddar wedi tueddu i beintio darlun hapusach o'r tridegau na'r arfer gan haneswyr gynt. I berchenogion tai Llundain, y Siroedd Cartref, a dwyrain canolbarth Lloegr, â'u ceir, eu stadau tai, eu diwydiannau ysgafn newydd a ffyniannus yn seiliedig ar nwyddau traul sy'n para, hurbwrcas a'r technolegau newydd, nid oes amheuaeth nad oedd y tridegau yn gyfnod mor wael â hynny i fyw ynddo. Ond yn ne Cymru, mae'n gwbl amhosibl derbyn y casgliad hwn. Roedd y tridegau'n gyfnod pan gafodd cymdeithas gyfan ei llethu gan ddiweithdra a newyn bron.[16]

Roedd gan ogledd Lloegr fwy yn gyffredin â de Cymru nag â de Lloegr. Roedd cyfraddau diweithdra uchel a dirywiad economaidd yn y ddwy ardal. I ailadrodd, ni wnaeth y llywodraeth ddim i atal yr iardiau llongau yng ngogledd-ddwyrain Lloegr rhag cau ac o ganlyniad roedd 75 y cant o weithwyr Jarrow yn ddi-waith. Mewn ymgais i gyfarfod â'r Prif Weinidog, gorymdeithiodd dau gant ohonyn nhw 300 milltir i Lundain. Roedd dynion camera newyddion a ffotograffwyr y wasg yn gorymdeithio gyda nhw ac yn cofnodi pob diwrnod o'r pythefnos o daith i lawr i'r de. Ar hyd y ffordd, bendithiwyd y gorymdeithwyr mewn gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Ripon, daeth gwleidyddion fel Helen Wilkinson, yr AS Llafur ar gyfer Jarrow i ymuno â nhw ac fe drwsiodd Co-op Caerlŷr eu hesgidiau am ddim. Roedden nhw'n gorymdeithio

[16] Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Caerdydd, 1981).

i sain organau ceg ac yn cael bwyd a llety gan rai oedd yn cydymdeimlo ar hyd y ffordd.
Efallai mai dyma orymdaith brotest enwocaf y 1930au, ond ni lwyddodd i gyflawni llawer, os rhywbeth o gwbl. Yn anffodus i adeiladwyr llongau Jarrow a glowyr y Rhondda, roedd y gwleidyddion a oedd â'r pŵer i ddatrys y broblem ddiweithdra yn eistedd mewn Senedd ym mwrdeistref llewyrchus San Steffan yn Llundain. Roedd y cyferbyniad rhwng tlodi a chyfoeth yn amlwg yng Nghymru. Er bod prinder tai ym Mhontypridd a slymiau ym Merthyr yn ystod y tridegau, eto i gyd yn yr Uplands yn Abertawe, yng Nghyn-coed a'r Rhath yng Nghaerdydd ac yn y Garden Village yn Wrecsam, adeiladwyd cannoedd o dai preifat ar gyfer y dosbarth canol llewyrchus. Roedd y gyfradd ddiweithdra yng nghymoedd y Rhondda a chwm Rhymni bron bedair gwaith yn fwy na'r gyfradd yng Nghaerdydd. Fe wnaeth hyd yn oed y diwydiannau newydd fel y diwydiant cemegau agor ffatrïoedd newydd yn Tyneside yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ac yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, ni chododd cysgod diweithdra oddi ar Brydain tan ddiwedd y 1930au, a hynny yn bennaf wrth i'r llywodraeth fuddsoddi mewn ailarfogi.

## Pa mor effeithiol oedd Prydain wrth baratoi am y rhyfel?

Mae'r rhan fwyaf o haneswyr yn cytuno bod yr Almaen wedi dechrau bod yn fygythiad pan ddechreuodd herio telerau Cytundeb Versailles. Roedd y cytundeb wedi cyfyngu maint byddin yr Almaen i 100,000 o ddynion ac wedi gwahardd y wlad rhag ailarfogi na chael llynges. Roedd y cytundeb hefyd wedi gwahardd yr Almaen rhag anfon ei milwyr i'r Rheindir, sef ardal ddadfilwroledig, a rhag uno ag Awstria Almaenig.

1934-35: CONSGRIPSIWN AC AILARFOGI Mae llawer o haneswyr yn dweud mai'r cam cyntaf tuag at ryfel oedd y ffaith i Hitler gyflwyno consgripsiwn (gorfodi dynion i ymuno â'r fyddin) a mabwysiadu polisi ailarfogi. Roedd adeiladu lluoedd arfog yr Almaen yn torri Cytundeb Versailles. Nid ymatebodd Prydain na Ffrainc i hyn.
1935: CYTUNDEB LLYNGESOL PRYDAIN A'R ALMAEN Arwyddodd Prydain gytundeb yn caniatáu i'r Almaen adeiladu llynges. Roedd hyn yn torri Cytundeb Versailles. Roedd y cytundeb yn gosod cyfyngiad ar faint llynges yr Almaen. Nid oedd yn cael bod yn fwy na thraean maint llynges Prydain. Roedd Ffrainc yn flin gan nad oedd neb wedi ymgynghori â hi.
1936: Y RHEINDIR Fe wnaeth Hitler ailfilwreiddio'r Rheindir pan alwyd ar filwyr i feddiannu'r rhan hon o'r Almaen. Roedd hyn yn torri Cytundeb Versailles. Bygythiad gwag oedd hyn – roedd Hitler wedi gorchymyn i fyddin yr Almaen encilio pe bai unrhyw wrthwynebiad. Nid ymatebodd Prydain na Ffrainc i hyn.
1938: AWSTRIA Ar ôl creu trafferth yn Awstria trwy annog Natsïaid Awstria i fynnu uno â'r Almaen, goresgynnodd Hitler y wlad. Roedd hyn yn torri Cytundeb Versailles, ond nid ymatebodd Prydain na Ffrainc i hyn.

1938: SUDETENLAND A MUNICH Yna corddodd Hitler y dyfroedd yn Tsiecoslofacia trwy annog Almaenwyr Sudetenland i fynnu uno â'r Almaen. Y tro hwn ymatebodd Prydain a Ffrainc. Roedd gan Hitler gynlluniau i oresgyn Tsiecoslofacia, ond perswadiwyd ef i gyfarfod ag arweinwyr Prydain a Ffrainc i drafod y sefyllfa. Mewn cynhadledd ym Munich ym mis Medi, dyhuddodd (tawelodd) Prydain a Ffrainc Hitler trwy roi Sudetenland. Anwybyddwyd pobl Tsiecoslofacia.
1939: TSIECOSLOFACIA Ym mis Mawrth, gorymdeithiodd milwyr Hitler i'r rhannau eraill o Tsiecoslofacia. Roedd hyn yn torri'r cytundeb a arwyddwyd ym Munich chwe mis yn gynharach. Sylweddolodd Prydain a Ffrainc nad oedd yn bosibl ymddiried yn Hitler; cytunon nhw i beidio ag ildio iddo eto.
1939: GWLAD PWYL A'R CYTUNDEB NATSI–SOFIETAIDD Roedd Hitler bellach yn mynnu bod y Coridor Pwylaidd, sef rhan o Wlad Pwyl, yn cael ei dychwelyd. Roedd y rhanbarth hon wedi cael ei chymryd oddi ar yr Almaen ar ôl Cytundeb Versailles. Roedd Hitler yn annog yr Almaenwyr a oedd yn byw yn yr ardal, a'r ddinas bwysicaf, Danzig, i fynnu uno â'r Almaen. Addawodd Prydain a Ffrainc i Wlad Pwyl y bydden nhw'n ei chefnogi pe bai'r Almaen yn ymosod arni. Cafodd pawb eu syfrdanu pan arwyddodd Hitler gytundeb â'i elyn, Rwsia gomiwnyddol. Roedd yn credu y byddai hyn yn atal Prydain a Ffrainc rhag helpu Gwlad Pwyl. Ar 1 Medi 1939, goresgynnodd Hitler Wlad Pwyl. Ar 3 Medi, cyhoeddodd Prydain a Ffrainc ryfel yn erbyn yr Almaen.

## Polisi dyhuddo Prydain

'Dyhuddo' yw'r gair sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio polisi tramor Prydain o dan y prif weinidogion Stanley Baldwin a Neville Chamberlain rhwng 1935 ac 1939. Diben y polisi oedd osgoi rhyfel a gwrthdaro trwy drafod, negodi a chyfaddawdu. Roedd y polisi'n boblogaidd ym Mhrydain gan nad oedd y mwyafrif o bobl eisiau gweld rhyfel arall. Yn ôl yr AS Rhyddfrydol Charles Masterman yn ei lyfr *England After War: A Study*, a gyhoeddwyd yn 1922:
Nid oes gan Loegr ddiddordeb mewn dim byd o gwbl. Nid yw'n poeni o gwbl am wleidyddiaeth leol, trefol na Seneddol. Mae fel claf yn gorffwys ar ôl colli llawer o waed. […] Mae'r system nerfol yn farw. Dim ond i'r ysgogiad cryfaf y mae'n gallu ymateb.[17]

Ar ôl dwy flynedd o wylio polisi tramor ymosodol Hitler, roedd Baldwin yn ystyried a ddylai Prydain roi'r gorau i heddychiaeth er mwyn ailarfogi Prydain. Er bod barn pobl Prydain yn dechrau newid yn araf bach, roedd yn ymwybodol hefyd bod heddychiaeth yn dal i fod yn boblogaidd iawn. Nid oedd yr un fath yn wir am ailarfogi. Ymddiswyddodd Baldwin yn lle gorfod wynebu penderfyniad o'r fath. Daeth Neville Chamberlain i gymryd ei le fel prif weinidog. Roedd Chamberlain yn credu y gallai gadw'r heddwch.

[17] Charles Masterman, *England After War: A Study* (Llundain, 1922), pp. 23-4.

Roedd Chamberlain o'r farn y byddai Hitler yn fodlon pe bai tiriogaethau penodol yn cael eu rhoi iddo, sef y rhai yr oedd yn honni eu bod yn eiddo i'r Almaen. Roedd Hitler yn dymuno uno'r Almaenwyr hynny a oedd yn byw yn y tiriogaethau a gafodd eu cymryd ar ôl Cytundeb Versailles. Ar ôl cael y tiriogaethau hyn, roedd Chamberlain yn gobeithio y byddai Hitler yn ymddwyn yn rhesymol, yn cadw at gytundebau roedd wedi'u harwyddo ac yn setlo unrhyw anghydfod pellach o amgylch y bwrdd cynadledda. Roedd wedi'i argyhoeddi nad oedd Hitler eisiau rhyfel a'i fod mor awyddus ag yntau i gadw'r heddwch.

Roedd llawer o gefnogaeth yn y wlad i bolisi Chamberlain gan ei fod yn cydymdeimlo'n gryf â heddychiaeth. Cefnogwyd Chamberlain yn y Senedd gan y Blaid Lafur. Roedd llawer o wleidyddion hyd yn oed yn edmygu Hitler am ei waith yn gwella sefyllfa diweithdra ac yn goresgyn y dirwasgiad economaidd yn yr Almaen. Yn 1936, aeth Lloyd George mor bell â chyfarfod â Hitler yn yr Almaen. Ar ôl hyn, dywedodd yn gyhoeddus ei bod yn bosibl ymddiried yn y Canghellor. Roedd Chamberlain yn cytuno ac yn awgrymu, gan fod diogelwch ar y cyd o dan Gynghrair y Cenhedloedd wedi methu, nad oedd dewis arall ond derbyn ei bolisi ef. Roedd rhai o gefnogwyr ceidwadol Chamberlain yn credu y gallai Hitler gael ei ddefnyddio i amddiffyn Prydain rhag lledaeniad comiwnyddiaeth o Undeb y Gweriniaethau Sofiet Sosialaidd (UGSS). Roedd ychydig o bobl yn dal o'r farn bod yr Almaenwyr wedi cael eu trin yn wael yn Versailles ac yn cydymdeimlo â'u hawl i gael eu huno o dan un arweinydd. Ystyriaeth bwysig arall oedd y ffaith syml nad oedd Prydain yn barod at ryfel; dim ond newydd ddechrau ailarfogi yr oedd hi, ac nid oedd yn gallu ei hamddiffyn ei hun rhag ymosodiad pendant. Yn waeth fyth, roedd y dirwasgiad economaidd wedi lleihau'n sylweddol faint o arian yr oedd Prydain yn gallu ei wario ar arfau a'r fyddin.

Ar y llaw arall, roedd pryder cynyddol yn y wlad na ddylai Prydain wneud llawer â phobl fel Hitler. Roedd yn unben ffasgaidd a oedd wedi dod i rym trwy ddulliau codi ofn a gormes yn hytrach na thrwy ffyrdd teg a democrataidd. Roedd cabinet Chamberlain ei hun yn rhanedig: roedd yr Arglwydd Halifax yn cefnogi'r polisi dyhuddo, ond roedd yr Ysgrifennydd Tramor Syr Anthony Eden yn credu bod rhaid sefyll yn gadarn yn erbyn Hitler. Y beirniad uchaf ei gloch yn erbyn polisi dyhuddo'r llywodraeth oedd Winston Churchill, a oedd yn AS Ceidwadol ar y meinciau cefn ar y pryd. Nid oedd llawer yn y llywodraeth yn gwrando arno, ond roedd yn ennill cefnogaeth ar lawr gwlad am ei farn bod rhyfel yn anochel oni bai bod Hitler yn cael ei rwystro.
Er gwaethaf ymdrechion gorau Chamberlain, roedd Hitler yn parhau i yrru ei bolisi tramor ymosodol yn ei flaen. Yn 1938, defnyddiodd Hitler rym i fynd i mewn i Awstria gan honni bod ei gydwladwyr a oedd yn siarad Almaeneg am uno â'r Almaen. Protestiodd Chamberlain, ond ni weithredodd. Roedd hyn yn sbardun i Hitler fentro

ymhellach a dechreuodd fynnu hunanbenderfyniad i Almaenwyr a oedd yn byw yn ardal Sudeten Tsiecoslofacia. Rhoddodd Hitler orchymyn i Heinlein, arweinydd Almaenwyr Tsiecoslofacia, drefnu gorymdeithiau  a gwrthdystiadau yn mynnu eu bod yn cael uno â'r Almaen. Gwnaeth Chamberlain un ymdrech olaf a pherswadiodd Hitler i fynychu cynhadledd heddwch y pedwar pŵer (yr Eidal, yr Almaen, Ffrainc a Phrydain) ym Munich. Llwyddodd Chamberlain a Daladier, Prif Weinidog Ffrainc, i berswadio Hitler i arwyddo cytundeb a oedd yn dweud mai dim ond ardal Sudetenland y gallai ei chymryd. Cytunodd y pedwar pŵer i warantu annibyniaeth gweddill tiriogaeth Tsiecoslofacia. Arwyddodd Hitler a Chamberlain ddatganiad hefyd yn dweud nad oedden nhw'n bwriadu mynd i ryfel yn erbyn ei gilydd. Dychwelodd Chamberlain i Brydain yn fuddugoliaethus gan ddatgan, 'Rwy'n credu y cawn heddwch yn ein dyddiau ni.' Roedd ymdeimlad cyffredinol o ryddhad trwy Brydain ac roedd Chamberlain yn cael ei ystyried yn arwr cenedlaethol. Ar y llaw arall, roedd pobl Tsiecoslofacia yn teimlo eu bod wedi cael eu bradychu.

Ym mis Mawrth 1939 cafodd gweddill Tsiecoslofacia ei oresgyn a'i feddiannu gan filwyr yr Almaen. Nid oedd Cytundeb Munich wedi para prin chwe mis cyn iddo fethu. Roedd Chamberlain wedi'i synnu'n fawr ac nid oedd angen dwyn llawer o berswâd arno i fabwysiadu polisi mwy milwriaethus, o'r diwedd. Fel Baldwin o'i flaen, roedd rhaid dewis: parhau i ildio i Hitler neu ddal ei dir yn gadarn; mewn geiriau eraill, dyhuddo neu ailarfogi. Penderfynodd Chamberlain fwrw ati i ailarfogi ac erbyn 1939 roedd bron 20% o wariant y llywodraeth yn cael ei wario ar arfau ac ar y lluoedd arfog. Roedd rhai o gydweithwyr Chamberlain yn y cabinet, fel yr Arglwydd Halifax, yn dal i gredu'n gryf ei bod yn bosibl rhesymu â Hitler ac osgoi rhyfel; yn groes i'r graen, roedd Chamberlain yn anghytuno.

Derbyniodd Gwlad Pwyl sicrwydd gan Brydain a Ffrainc y byddent yn ei chefnogi pe bai Hitler yn mynnu bod y Coridor Pwylaidd yn cael ei ddychwelyd. Rhoddwyd addewid gan y ddwy wlad y bydden nhw'n cyhoeddi rhyfel pe bai milwyr yr Almaen yn goresgyn y wlad. Pwysodd Lloyd George, Churchill a'r Blaid Lafur ar y llywodraeth i lunio cynghrair â Rwsia Sofietaidd, ond nid oedd y Ceidwadwyr yn gallu bwrw o'r neilltu eu diffyg ymddiriedaeth mewn comiwnyddiaeth. Er i drafodaethau â Stalin gael eu cynnal, nid oedd llawer o obaith y bydden nhw'n llwyddo, mewn gwirionedd. Roedd Stalin yn ofni ymosodiad gan yr Almaen, ond roedd yn sylweddoli hefyd nad oedd modd ymddiried ym Mhrydain na Ffrainc, felly daeth i gytundeb â Hitler ym mis Awst. Cafodd y byd ei syfrdanu gan y Cytundeb Natsi- Sofietaidd Di-drais; go brin y gallai unrhyw un gredu bod y ddau elyn bellach yn ffrindiau. Roedd goresgyn Gwlad Pwyl yn anochel gan fod Hitler bellach yn sicr na fyddai UGSS yn dod i'w helpu. Tan y funud olaf roedd Hitler yn mentro y byddai'n well gan Chamberlain a llywodraeth Ffrainc siarad yn hytrach nag ymladd ac na

fydden nhw'n cyhoeddi rhyfel, hyd yn oed pe bai'r Almaen yn goresgyn Gwlad Pwyl. Roedd Hitler wedi bod yn llygad ei le sawl gwaith o'r blaen, ond y tro hwn roedd wedi gwneud camgymeriad.

Mewn darllediad radio eglurodd y Prif Weinidog i'r Almaenwyr pam ei fod wedi cyhoeddi rhyfel (4 Medi 1939):
Rhoddodd [Hitler] ei air y byddai'n parchu Cytundeb Locarno; torrodd ei air. Rhoddodd ei air nad oedd yn dymuno nac yn bwriadu cyfeddiannu [cymryd drosodd] Awstria; torrodd ei air. Dywedodd na fyddai'n ymgorffori [cynnwys] pobl Tseicoslofacia yn y Reich [Ymerodraeth]; gwnaeth hynny. Ar ôl Munich rhoddodd ei air nad oedd ganddo uchelgeisiau tiriogaethol [nad oedd am hawlio mwy o dir] yn Ewrop; torrodd ei air. Rhoddodd ei air nad oedd am gael unrhyw daleithiau Pwylaidd; torrodd ei air. Mae wedi addo i chi ers blynyddoedd ei fod yn elyn pennaf i Bolsieficiaeth [Rwsia Gomiwnyddol]; maen nhw bellach mewn cynghrair.[18]

## Paratoadau Prydain at ryfel

Yn fyr, prin bod Prydain wedi paratoi at ryfel o gwbl. Er bod Chamberlain wedi dechrau ailarfogi, roedd yr ailarfogi hwnnw yn rhy ychydig ac yn rhy hwyr. Yr unig ran o luoedd arfog Prydain a oedd yn barod ac yn gallu wynebu'r gelyn oedd y Llynges Frenhinol. Roedd y Llu Awyr Brenhinol (*RAF: Royal Air Force*) wedi'i hyfforddi'n dda ac roedd ganddo'r awyrennau gorau, ond roedd yn fach. Roedd y fyddin yn fach hefyd, heb ei hyfforddi'n dda a heb offer digonol. Byddai'n cymryd amser i baratoi lluoedd arfog Prydain at ryfel. I gynyddu maint y fyddin mor gyflym â phosibl, cyflwynwyd consgripsiwn. Erbyn diwedd 1939 roedd dros 1.5 miliwn o ddynion wedi cael eu consgriptio i ymuno â lluoedd arfog Prydain. O'r rheini, aeth ychydig dros 1.1 miliwn i Fyddin Prydain, a rhannwyd y gweddill rhwng y Llynges Frenhinol a'r Llu Awyr Brenhinol (*RAF*).

Ar y llaw arall, roedd paratoadau wedi cael eu gwneud i baratoi pobl Prydain at ryfel. Roedd Deddf Pwerau Argyfwng (Amddiffyn) 1939 yn rhoi i lywodraeth Prydain y grym i gymryd mesurau penodol er mwyn amddiffyn y wlad a chadw trefn. Crëwyd mudiad – Rhagbaratoadau Cyrchoedd Awyr – (*ARP: Air Raid Precautions*) gan fod pobl yn ofni'r bygythiad cynyddol yn sgil datblygu awyrennau bomio. Yn 1938 cynghorwyd y Weinyddiaeth Awyr gan Chamberlain y gallai'r wlad, pe digwyddai rhyfel, ddisgwyl y byddai 65,000 o anafedigion (pobl wedi'u hanafu) bob wythnos o ganlyniad i fomio'r Almaen. Yn 1939 adolygodd y Weinyddiaeth Awyr ei ffigurau gan awgrymu y gallai'r llywodraeth, ym mis cyntaf y rhyfel, ddisgwyl gweld miliwn wedi'u hanafu, tair miliwn o ffoaduriaid, a dinistrio dros hanner dinasoedd Prydain. Roedd mesurau i reoli'r dinistr hwn wedi'u cyfyngu gan mwyaf i drafodaethau ymarferol am gael gwared ar gyrff a dosbarthu dros filiwn o ffurflenni claddu i awdurdodau lleol. Pan ddechreuodd y rhyfel, archebodd llywodraeth Prydain filiwn o eirch.

[18] Adnoddau Hanesyddol – http://goo.gl/lleBlt

I amddiffyn y bobl rhag y bomiau, trefnodd y llywodraeth bod llochesau cyrch awyr neu lochesau bomiau'n cael eu hadeiladu. Yn ystod argyfwng Munich, bu awdurdodau lleol yn cloddio ffosydd i ddarparu lloches. Ar ôl yr argyfwng, penderfynodd llywodraeth Prydain wneud y rhain yn barhaol a defnyddiwyd leinin ffos concrit wedi'i gastio ymlaen llaw. Derbyniodd teuluoedd unigol gyngor i godi eu llochesau eu hunain, felly cyflenwodd y llywodraeth dros ddwy filiwn o ddeiliaid tai â llochesau Anderson. Cafodd wardeniaid eu recriwtio a rhoddwyd iddyn nhw'r dasg o orfodi rheolau llym, fel y blacowt, pan oedd bomiau'r gelyn yn disgyn. Amcangyfrifwyd bod tua hanner miliwn o bobl wedi gwirfoddoli i ymuno â'r *ARP*. Roedd wardeniaid yr *ARP* yn cerdded ar hyd y strydoedd yn rhybuddio deiliaid tai rhag dangos unrhyw olau. Roedd disgwyl hefyd i wardeniaid *ARP* gynghori deiliaid tai a chydlynu'r gwasanaethau brys – yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans.

Trodd y llywodraeth hefyd at dechnoleg newydd i helpu'r wlad i baratoi at ryfel. Yn sgil datblygu radar, roedd yn bosibl amddiffyn y wlad rhag awyrennau bomio'r Almaen. Roedd yn system canfod gwrthrychau a oedd yn defnyddio tonnau radio i adnabod pellter, uchder, cyfeiriad a chyflymder gwrthrychau. Defnyddiwyd radar i ganfod awyrennau trwy drosglwyddo pylsiau o donnau radio o loeren radar a oedd yn sboncio oddi ar unrhyw wrthrych yn y ffordd. Nid oedd radar yn atal awyrennau bomio'r Almaen rhag torri trwyddo, ond roedd yn helpu'r RAF a oedd â llawer llai o awyrennau na'r Almaen, i ymosod yn fwy effeithiol trwy dargedu'r mannau lle'r oedd y nifer mwyaf o awyrennau bomio'r gelyn. Roedd y llywodraeth yn defnyddio balwnau amddiffyn a gynnau gwrthawyrennol yn erbyn yr awyrennau bomio hynny a oedd yn llwyddo i fynd heibio i awyrennau ymladd yr RAF. Cafodd balwnau amddiffyn mawr eu codi a'u clymu uwchben dinas Llundain i atal awyrennau bomio'r Almaen rhag dod i lawr yn rhy isel yn ystod eu cyrchoedd. Golygai hyn fod bomio'r Almaenwyr yn llai cywir ac felly'n llai effeithiol. Roedd y llywodraeth yn defnyddio miloedd o ynnau gwrthawyrennol hefyd, ynghyd â goleuadau chwilio llachar ar gyfer ymosodiadau nos, i amddiffyn pobl Prydain a'r trefi a'r dinasoedd lle'r oedden nhw'n byw.

Fe ddaeth y rhyfel ym mis Medi 1939. Goresgynnwyd Gwlad Pwyl gan yr Almaen, a phan wrthododd Hitler dynnu ei filwyr allan, cyhoeddodd Prydain a Ffrainc ryfel. Ar ôl pedair wythnos, ildiodd pobl Gwlad Pwyl. Ni chafodd Prydain ei bomio ac ni fu ymladd rhwng Prydain a'r Almaen. Y Rhyfel Ffug yw'r enw ar y cyfnod rhwng mis Hydref 1939 a mis Ebrill 1940. Fodd bynnag, ym mis Ebrill aeth y rhyfel yn ei blaen wrth i'r Almaen ymosod ar Norwy a Denmarc. Ym mis Mai ymosododd yr Almaen ar yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a Ffrainc. Roedd Byddin Prydain yn Ffrainc (Byddin Ymgyrchol Prydain: *British Expeditionary Force*) yn ymladd ochr yn ochr â phobl Ffrainc a Gwlad Belg, ond ar ôl chwe wythnos o ymladd gorchfygwyd y

cynghreiriaid. Ildiodd Ffrainc, ac ymgiliodd gweddill Byddin Prydain adref o Dunkirk. Roedd pobl Prydain bellach yn credu mai Prydain fyddai'n cael ei goresgyn nesaf, ac roedden nhw'n paratoi ar gyfer hynny. Er mwyn amddiffyn y wlad, sefydlodd y llywodraeth y Gwarchodlu Cartref, sef gwirfoddolwyr a oedd yn cael eu harfogi a'u hyfforddi i wrthsefyll goresgyniad.

Cafodd y bobl ganlynol eu cyfweld ar gyfer rhaglen deledu o'r enw *The Day War Broke Out* (1989), a gofynnwyd iddyn nhw am eu hatgofion o'r cyfnod:
Mr McCrowarty o Glasgow: Daeth y bobl wyneb yn wyneb â'r Ail Ryfel Byd. Doedden nhw ddim wedi rhagweld hynny o gwbl. Ac eto, roedden nhw'n gwybod y byddai cyrchoedd awyr yn dod. Ond agwedd y bobl gyffredin oedd: O, gadewch i'r gwladweinwyr ofalu am hynny, chi'n gwybod. Dydw i ddim yn credu y bydd yn cael effaith ar y dyn ar y stryd. Ond doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd o'u blaenau.
Mrs Buckland o Lundain: Roedden nhw wedi dweud bod rhyfel wedi'i gyhoeddi, ac yna seiniodd y seirenau. Roeddem ni wedi ein parlysu gan ofn. Ta waeth, ar ôl hynny, roeddem ni'n aros am y gynnau, ond chlywsom ni ddim byd, felly dyna ddiwrnod cyntaf y rhyfel. Roedd hi'n fore eithaf cyffrous, wir, ond roedd yn drist meddwl ein bod bellach yng nghanol rhyfel.
Mr Barsley o Rydychen: Wel, ar 3 Medi 1939, edrychais yn fy nyddiadur ac roeddwn yn dal yn heddychwr bryd hynny, pan ddechreuodd y rhyfel, a nodais pan glywais lais blinedig Chamberlain yn cyhoeddi ein bod bellach yng nghanol rhyfel, dyma fi'n meddwl, dyma ni, dyma ddiwedd taith hir, sydd wedi gwyro oddi ar y llwybr cywir – ac rwyf finnau'n daer yn ei erbyn.
Mrs Barnicott o Plymouth: Roeddem ni wedi bwriadu cynnal parti teuluol, ond wrth gwrs, cafodd y parti ei ganslo. Treuliodd fy narpar ŵr a fy nhad y diwrnod yn cloddio twll yn yr ardd i roi lloches Anderson ynddo. Roedd fy rhieni'n fwy trist na ni, oherwydd roedden nhw wedi dod trwy'r rhyfel diwethaf, felly roedden nhw'n gwybod mwy am ryfel na ni.[19]

Gan fod cynifer o ddynion wedi cael eu galw i wasanaethu yn y lluoedd arfog, roedd y llywodraeth yn ymwybodol bod yn rhaid iddo wneud yn siŵr bod cyflenwad parod o weithwyr medrus ar gael i gynnal diwydiannau'r rhyfel. Lluniwyd Rhestr o Yrfaoedd Neilltuedig yn eithrio rhai gweithwyr medrus allweddol rhag consgripsiwn. Roedd y rhestr yn nodi bron i bum miliwn o ddynion mewn amrywiaeth eang o swyddi gan gynnwys dynion y rheilffordd, gweithwyr dociau, glowyr, gweithwyr ffatrïoedd rhyfel a ffermwyr. Ymunodd llawer o'r rhai mewn gyrfaoedd neilltuedig ag unedau amddiffyn sifil fel y Rhagbaratoadau Cyrchoedd Awyr a'r Gwarchodlu Cartref.

[19] Rhaglen ddogfen ITV, *The Day War Broke Out* (1989).

## Sut gwnaeth pobl ym Mhrydain ymdopi â phrofiadau'r rhyfel?

Ar ôl i Ffrainc ildio ym mis Mehefin 1940, rhybuddiodd llywodraeth Prydain ei phobl i ddisgwyl y gwaethaf: ymgyrch fomio enfawr yn erbyn y porthladdoedd a'r dinasoedd. I gychwyn, roedd y cyngor yn anghywir. Er bod Hitler wedi gorchymyn ymosodiad cyfun o'r awyr yn erbyn Prydain ar 31 Gorffennaf a goresgyniad ym mis Medi, dau brif darged y Luftwaffe oedd: y meysydd awyr lle'r oedd yr *RAF* yn rheoli'r awyrennau ymladd; llongau Prydain yn y Sianel. Byddai clirio llongau rhyfel Prydain o'r Sianel, a rheoli'r awyr uwch ei phen ar ôl hynny, yn galluogi llu goresgyn yr Almaen i wneud ei waith heb rwystr. Roedd Brwydr Prydain wedi dechrau.

Cafodd Brwydr Prydain ei hymladd uwchben cefn gwlad de Lloegr, a'i gwylio gan y cyhoedd. Roedd llawer llai o awyrennau gan yr *RAF* na'r Luftwaffe. Dim ond 2,915 o awyrennau oedd gan yr *RAF* a dim ond ychydig dros 1,200 ohonyn nhw oedd yn awyrennau ymladd. Roedd 4,550 o awyrennau gan y Luftwaffe. Yn ystod pum wythnos gyntaf y frwydr, hyd at 6 Medi, collodd yr *RAF* bron 20% o'i gryfder. Saethwyd 185 o awyrennau Spitfire a Hurricane i lawr mewn wythnos.

Roedd colledion yr Almaen yr un mor drwm, ond roedd yr Almaenwyr yn dal ati gan gredu na fyddai'r *RAF* yn gallu eu gwrthwynebu'n llawer hirach. Roedden nhw'n iawn, ond nid oedden nhw'n gwybod hynny. Achubwyd yr *RAF* rhag dinistr llwyr pan newidiodd yr Almaenwyr eu tactegau, gan fomio dinasoedd yn lle meysydd awyr. Ar 7 Medi roedd Hitler yn gandryll, a gorchmynnodd i'r Luftwaffe fomio Llundain i ddial ar Brydain ar ôl i'r *RAF* fomio Berlin. Roedd y Blitz, y gair Almaeneg am 'fellt', wedi dechrau. Bathwyd y term 'Blitz' gan wasg Prydain, a defnyddiwyd y term i ddisgrifio'r cyrchoedd bomio trwm ac aml ar Brydain yn 1940 ac 1941.

## Y Blitz: Bomio dinasoedd Prydain

Gorchmynnodd Hitler i'w awyrennau bomio ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddinistrio diwydiant Prydain a'i threfi a'i dinasoedd; Llundain oedd y prif darged. Roedd yn gobeithio gorfodi llywodraeth Prydain i ildio trwy fomio sifiliaid yn barhaus, a thrwy hynny dorri eu hysbryd. Bomiwyd Llundain bob nos rhwng 7 Medi a 2 Tachwedd. Gollyngwyd tua 13,500 tunnell o fomiau ffrwydrol i gyd, mewn pum deg saith cyrch. Cyn pen dim, roedd dinasoedd eraill yn dioddef bomio difrifol. Bu cyrch ar Coventry am y tro cyntaf ar 14 Tachwedd 1940. Y noson honno, lladdwyd 554 o bobl, a dinistriwyd 50,000 o dai a 400 o siopau. Dros y ddau ddiwrnod nesaf, dychwelodd awyrennau bomio'r Almaen i fomio'r rhannau o'r ddinas a oedd yn dal i sefyll.

Yn wyneb colledion cynyddol, dechreuodd yr Almaenwyr fomio yn ystod y nos. Yn sgil hyn, gollyngwyd bomiau tân newydd a oedd yn achosi tanau enfawr. Ar

un noson yn unig – 29 Rhagfyr 1940 – bu bomiau tân yn gyfrifol am achosi dros 1,300 o danau yng nghanol Llundain. Yn 1941 dechreuodd yr Almaenwyr estyn ffiniau'r cyrchoedd awyr, gan fomio Belfast, Glasgow, Abertawe, Caerdydd a Lerpwl (a drawyd am wyth noson ym mis Mai, gan achosi marwolaeth 2,000 o sifiliaid). Parhaodd y Blitz o fis Medi 1940 tan fis Mai 1941. Lladdwyd 45,000 o sifiliaid a chafodd tair miliwn a hanner o dai eu difrodi neu eu dinistrio. Am bob sifiliad a fu farw, cafodd tri deg pump eu gwneud yn ddigartref.

## Ymdopi â'r Blitz



**Ffynhonnell D**: Plentyn a gafodd ei wneud yn ddigartref ar ôl y bomio. Coventry, 1940. Wikimedia Creative Commons http://bit.ly/2ucCE1n

O ddiwrnod cyntaf un y rhyfel, roedd y llywodraeth wedi cynllunio ar gyfer y bomio difrifol a oedd i'w ddisgwyl. Sefydlwyd unedau Amddiffyn Sifiliaid fel y wardeniaid *ARP*, y Gwasanaeth Tân Ategol, y canolfannau Cymorth Cyntaf a'r Gwasanaeth Ambiwlans Ategol. Roedd sifiliaid wedi cael cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i'w hamddiffyn eu hunain trwy ddefnyddio llochesau cyrch awyr. Y llochesau mwyaf enwog oedd y lloches Anderson, a oedd wedi'i gwneud o ddalenni o fetel wedi'u gosod yn y ddaear a'u gorchuddio â phridd, a'r lloches Morrison, sef blwch mawr dur i'w osod yn y cartref, o dan y grisiau fel arfer. Roedd llochesau cymunedol hefyd ar gael ar gyfer niferoedd mawr o bobl, ac roedd pobl Llundain yn ddigon ffodus i allu defnyddio'r gorsafoedd trên tanddaear.

Roedd papur newydd y Daily Mirror yn adrodd am y Blitz mewn bwletinau dyddiol. Er enghraifft, ar 9 Medi 1940 roedd dwy stori yn y papur am gyrchoedd bomio ar Lundain:
Tân yn eu Harwain Roedd yn ymddangos fel pe bai rhai o beiriannau'r Almaen yn troi uwchben ardal arall oherwydd y saethu A.A. [sŵn *ack-ack* y gynnau gwrthawyrennol] milain ac yn hedfan yn ôl tuag at yr arfordir, heb gyrraedd eu prif dargedau.
Roedd yn amlwg bod awyrenwyr yr Almaen wedi defnyddio'r tanau a oedd yn mudlosgi ar ôl cyrchoedd dydd Sadwrn i'w harwain gan fod yr ymosodiadau wedi'u cyfeirio at yr un ardal – dociau Llundain.
Roedd awr gyntaf yr ymosodiad yn llai arswydus na chyrch dydd Sadwrn – roedd llai o awyrennau'r gelyn wedi gallu pasio trwy'r tanio amddiffynnol grymus rhwng yr

arfordir a Llundain. Ar ôl awr, roedd gosteg tawel.
Aeth deng munud heibio – yna, “fel uffern ar y ddaear,” rhuodd holl offer amddiffyn Llundain a dechrau gweithio, gan gyhoeddi bod y cyrchwyr yn dychwelyd.
Clywyd crensian milain a dirgryniadau swnllyd, llawn cryndod. Roedd fflachiadau llachar yn llamu ar draws yr awyr dywyll wrth i'r awyrennau ollwng eu bomiau.
A.A. – 3 Mewn Munud Roedd rhybudd cyntaf ardal Llundain yn seinio wrth i drefniant o awyrennau cyrchu geisio ymosod yng ngolau dydd.
Wrth i un trefniant mawr o awyrennau ymddangos yn y cymylau dros ardal yn y de- ddwyrain, ffrwydrwyd tri Dornier [awyrennau bomio'r Almaen] yn ddarnau mewn munud gan ynau A.A.  Dwy ar hugain oed oedd y saethwr o fri.
Pan saethwyd yr awyrennau, gollyngwyd eu bomiau dros ardal eang. Cafodd siopau a bythynnod eu difrodi'n wael, ond ni chafodd neb ei anafu.
Rhoddwyd ystafell ddosbarth ar dân mewn cartref i fechgyn, yn ogystal â thŷ'r fetron. Aeth y bechgyn hŷn ati i ymladd y fflamau ar ôl i athro seinio'r rhybudd.
Llwyddodd aelodau o'r Gwarchodlu Cartref, a oedd yn gwasgaru ar ôl parêd yr eglwys, i ddal un o'r awyrenwyr a oedd wedi dianc. Dywedodd hwnnw wrthyn nhw fod pedwar o awyrenwyr eraill yn agos.[20]

I ddechrau, roedd y bomio nos parhaus ar ddinasoedd Prydain, a'r anafiadau difrifol a'r marwolaethau a achosir gan hyn, yn effeithio ar ysbryd y bobl. Yn Lloegr, un o'r dinasoedd a fomiwyd waethaf oedd Coventry. Daeth cyrch enwog 14 Tachwedd 1940 â'r ddinas i stop. Gollyngodd 500 o awyrennau bomio'r Almaen 500 tunnell o ffrwydradau a bron 900 o fomiau tân ar y ddinas mewn deg awr o fomio di-baid.
Daily Mirror, 9 Medi 1940, t.1.




**Ffynhonell Dd**: Pobl yn cerdded i'r gwaith heibio i bentyrrau o rwbel sy'n mudlosgi ar ôl cyrch bomio. Coventry, 1940. Wikimedia Creative Commons http://bit.ly/2v7Fz8h

[20] *Daily Mirror*, 9 Medi 1940, t.1.

Gwnaeth Winston Churchill, a ddaeth yn brif weinidog ar ôl Chamberlain, bopeth o fewn ei allu i godi ysbryd y bobl gyda'i areithiau tanbaid, ei ddarllediadau radio gwladgarol a thrwy deithio i'r ardaloedd a oedd wedi'u bomio. Ar y llaw arall, roedd sensoriaeth y llywodraeth yn sicrhau nad oedd papurau newydd yn cael dangos lluniau o dai wedi'u difrodi na chyrff marw wedi'u llarpio. Dywedwyd wrth y radio a'r sinema am ganolbwyntio ar straeon am arwriaeth y gwasanaethau achub. Cyfrannodd ofn, casineb, difrod a phropaganda'r llywodraeth i gyd at well ysbryd cymunedol, a theimlad bod pawb gyda'i gilydd. Roedd pobl Prydain yn benderfynol o ddangos i Hitler nad oedden nhw'n gallu cael eu trechu, ac roedden nhw'n ceisio parhau â'u bywydau bob dydd fel arfer.

## Myth y Blitz

Mae rhai haneswyr wedi cwestiynu'r 'ysbryd cymunedol' hwn a'r ymdeimlad o 'frawdgarwch' yn ystod y Blitz. Yn ei erthygl 'The Blitz: Sorting the Myth from Reality', mae James Richards yn cydnabod bod y ddelwedd o Brydain fel cenedl a oedd wedi 'cyd-dynnu yn ystod y Blitz' yn un grymus (a phoblogaidd). Ond, mae'n awgrymu bod y realiti ychydig yn wahanol i'r ddelwedd arwrol:

Mae'r cofnod o'r Blitz – wrth i ddinasoedd mawr Prydain ddioddef bomio parhaus, di-baid, gan Natsïaid yr Almaen – wedi cael ei roi ar gof a chadw gan bobl Prydain ers blynyddoedd y rhyfel. Fodd bynnag, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn a liwiodd y fuddugoliaeth yn y rhyfel, a'r 60 mlynedd ers hynny, y ffordd y mae'r Blitz yn cael ei gweld yn gyffredinol erbyn hyn?
Mae ein diwydiant treftadaeth wedi annog 'Myth y Blitz' ac mae hwnnw'n wahanol i realiti'r profiad yn ystod y rhyfel. Y myth yw ein bod ni i gyd wedi cyd-dynnu, bod ysbryd pawb yn uchel wrth i'r hen a'r ifanc, y dosbarth uchaf a'r dosbarth isaf ddod drwyddi rywsut gyda'i gilydd, gan gadw'r ysbryd yn uchel o dan ymosodiad y Natsïaid.

Ond dyna'n union yw 'Myth y Blitz' – myth. Roedd aelodau'r sefydliad yn gallu cadw'n ddiogel mewn plastai yn y wlad yng nghanol moethusrwydd ac y tu hwnt i gyrraedd  y bomiau, neu mewn clybiau seler drud yn y ddinas. Roedd y dosbarth gwaith a'r dosbarth canol-is yn cael eu gorfodi i aros yn y dinasoedd a wynebu'r cyrchoedd peryglus a hynny heb ddarpariaeth lloches ddigonol.
Roedd yn gyfnod o arswyd, dryswch a dicter. Roedd anallu'r llywodraeth – anallu a oedd bron yn droseddol ei faint – bron yn awgrymu dirmyg tuag at y bobl gyffredin. Roedd yn gyfnod i'r bobl helpu eu hunain i'r llochesau roedden nhw eu hangen. Roedd yn gyfnod o ryfel dosbarth.[21]

Hyrwyddwyd 'Myth y Blitz' gan y llywodraeth, a oedd yn defnyddio ei rheolaeth

[21] J. Richards, 'The Blitz: Sorting the Myth from Reality' *BBC History* ar-lein edn. 17 Chwefror 2011 http://goo.gl/JC01cf.

dros y cyfryngau i gyflwyno llun o fywyd yn mynd yn ei flaen fel arfer, er gwaethaf cyrchoedd bomio cyson. Nid oedd y papurau newydd yn dangos lluniau o bobl a gâi eu galw'n  'ymlwybrwyr' – y teuluoedd a fyddai'n treulio'r noson i ffwrdd o'u cartrefi, mewn coetir lleol neu barc lle'r oedden nhw'n teimlo'n fwy diogel rhag ymosodiad. Roedd lluniau o'r fath yn cael eu sensro. Roedd ffilm Americanaidd o'r enw *London can take it* yn cyflwyno delwedd o ddinas wedi'i dinistrio gan fomiau, ond un a oedd yn mynd o gwmpas ei phethau fel arfer. Yn ôl y storïwr, 'Mae bomiau'n gallu lladd pobl, ond nid ydynt yn gallu difa ysbryd anorchfygol cenedl.' Wrth gwrs, nid oedd bywyd mor hawdd ag yr oedd y propaganda yn ei awgrymu – roedd Llundain yn gallu cymryd y bomio, ond dim ond oherwydd nad oedd gan bobl Llundain fawr o ddewis.

Y dref a gafodd ei bomio waethaf yng Nghymru oedd Abertawe. Am dair noson ym mis Chwefror 1941, ymosododd 250 o awyrennau'r Almaen ar Abertawe gan ollwng 1,320 o fomiau ffrwydrol a thua 56,000 o fomiau tân. Nod gwreiddiol y cyrch oedd difa dociau'r dref a'i ffatrïoedd diwydiannol trwm, ond collodd yr Almaenwyr eu targedau gan fomio canol Abertawe yn lle. Roedd y bomiau tân wedi achosi tanau yr oedd yn bosibl eu gweld dros hanner can milltir i ffwrdd. Bu farw llawer o sifiliaid, tua 387, a dinistriwyd llawer iawn o adeiladau'r dref. Roedd Caerdydd wedi dioddef hefyd. Mewn un cyrch, ar 2 Ionawr 1941, lladdwyd 151 o ddynion, 147 o fenywod a 47 o blant a dinistriwyd tua 600 o dai.

Cyhoeddwyd y canlynol gan y *South Wales Evening Post*, o dan y teitl 'Memories of Swansea at War', a gyhoeddwyd yn 1988:
Mr Fifield: Roeddem ni'n byw yn Stryd Greenfield trwy gydol y rhyfel, ac roeddem ni yn ei chanol hi. Treuliodd fy nheulu nos ar ôl nos yn y lloches concrit gyferbyn â'r tŷ. Rwy'n cofio mynd lan i Eglwys y Santes Fair i geisio cael y canwyllbrennau ac eitemau eraill allan o'r eglwys. Aethom ni drwy'r cyfan, heb i ffenestr gracio yn y tŷ, hyd yn oed. Roeddem ni hefyd yn chwerthin ar bethau gwahanol a oedd wedi digwydd . . . un noson, seiniodd y rhybudd a gwaeddodd y warden 'Pawb i'r llochesau'. Neidiodd un dyn o dan fan yn Sgwâr Wassall. Pan oedd y cyfan ar ben, gwelsom ni'r fan ar dop y Sgwâr a'r dyn yn dal ar y ffordd yn ddiogel. Rwyf bellach yn 80 oed a dydw i ddim yn meddwl y byddwn ni byth yn gweld cyfnod tebyg eto. Lai na phum munud i ffwrdd o'n tŷ ni, roedd y bomiau wedi dinistrio popeth.
Mr Mansell: Roeddwn i'n un o'r ugain warden *ARP* cyntaf yn Abertawe. Roedd fy mhost *ARP* innau yn Stryd Pottery a gafodd ei bomio, ac yna yn Stryd Powell. Daeth un o'r cyrchoedd pan oedd negesydd ifanc a finnau ar batrôl, a gollyngwyd bomiau . . . gan fwrw tŷ yn Nheras Cwm a Llety Philaparts. Anfonais fy negesydd at y post a dechrau cael rhai o'r dynion allan. Daeth fy negesydd yn ôl i helpu nes i'r tîm achub gyrraedd. Llwyddom ni i gael 42 o'r 48 allan yn fyw. Derbyniodd y negesydd, Jack Evans, wobr uchaf y Sgowtiaid am ddewrder.

Mrs Jenkins: Collodd gwraig fy mrawd dri aelod o'i theulu ar ôl i fom daro eu lloches nhw'n uniongyrchol yn Nheras Bryn-Syfi yn y Blitz ym mis Chwefror. Ar ôl yr angladd, aethom ni i'r fynwent i weld y bedd. Roeddwn i wedi fy synnu wrth weld pump neu chwech o feddau agored, a milwyr yn dal i gloddio beddau eraill. Wrth ofyn i un o'r milwyr ar gyfer pwy yr oedd y beddau, dywedodd, 'Maen nhw'n barod ar gyfer y Blitz nesaf.'[22]

## Ymgilio

Pan gyhoeddwyd rhyfel, rhoddodd y llywodraeth ei chynllun ar gyfer ymgilio - o'r enw *Operation Pied Piper* - ar waith. Nid oedd y llywodraeth yn gorfodi ymgilio oherwydd y perygl y byddai pobl yn protestio pe baent yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi neu eu plant. O gychwyn cyntaf y rhyfel, felly, roedd ymgilio bob amser yn wirfoddol, ond yn cael ei annog yn gryf. Roedd y llywodraeth am osgoi bod menywod a phlant yn cael eu lladd oherwydd y byddai hynny'n effeithio ar ysbryd y bobl. Y cynllun oedd bod menywod a phlant yn ymgilio o dargedau tebygol fel Llundain i ardaloedd diogel fel Cymru. Yn ystod y rhyfel, ymgiliodd oddeutu 110,000 o blant i Gymru.

Roedd Cymru'n cael ei hystyried yn lle diogel oherwydd bod y rhan fwyaf o ardaloedd yn wledig a bod ganddi lai o dargedau milwrol na Lloegr. Anfonwyd rhai plant dramor i UDA a Chanada hefyd. Mewn sawl achos, dim ond plant oedd yn ymgilio oherwydd bod gan eu rhieni swyddi pwysig yn y ddinas a oedd yn hanfodol ar gyfer ymdrech y rhyfel. Er bod y rhan fwyaf o'r faciwîs a ddaeth i Gymru wedi dod o Lundain a Birmingham, ymgiliodd llawer o Gymry – yn fenywod a phlant – o Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd i drefi a phentrefi yng nghefn gwlad. Mewn achosion eraill, roedd y rheini a oedd yn gwrthod ymgilio yn tueddu i adael y ddinas fin nos cyn i'r bomio ddechrau, gan ddychwelyd eto yn y bore ar ôl i'r awyrennau bomio fynd. Yn ystod Blitz Plymouth yn 1940, roedd dros 50,000 o bobl – 'ymlwybrwyr' – yn gadael y ddinas bob nos.

## Faciwîs a'u cymunedau newydd yng Nghymru

Roedd tua miliwn a hanner o bobl i gyd yn symud o amgylch y wlad yn chwilio am fan diogel. Yng nghwm Rhondda yn unig, daethpwyd o hyd i loches dros dro ar gyfer tua 33,500 o faciwîs o Lundain, Caerdydd a Bryste yng nghartrefi'r bobl leol. Roedd hyn weithiau'n arwain at broblemau, a chyfrifoldeb y swyddogion lletya lleol oedd ceisio helpu'r faciwîs a'r teuluoedd a oedd yn eu lletya i gyd-dynnu. Nid oedd yn anarferol gweld ysgolion cyfan yn cael eu cynnig i deuluoedd nad oedd modd dod o hyd i lety iddyn nhw mewn cartrefi lleol. Roedd bywyd y faciwîs yn amrywio. Roedd yn dibynnu i ba raddau yr oedden nhw'n cyd- dynnu â'r teuluoedd a oedd

[22] 'Memories of Swansea at War' yn *South Wales Evening Post* (1988).

yn eu lletya ac â'r gymuned leol. Gan fod y rhan fwyaf o faciwîs yn dod o drefi a dinasoedd mawr, nid oedden nhw wedi arfer byw yn y wlad. I lawer o blant y ddinas, yn arbennig y rheini a oedd yn dod o slymiau dwyrain Llundain, roedd byw yn y wlad yn fwy cyffrous ac yn fywyd llawer mwy iach.

Er bod teuluoedd cas, a chreulon ar adegau, wedi gwneud bywyd yn anodd i rai faciwîs, roedd y rhan fwyaf yn cael lle gyda theuluoedd a oedd yn hapus i ofalu amdanyn nhw. Roedd cwlwm emosiynol yn datblygu, ac roedd rhai faciwîs yn amharod iawn i adael am eu cartrefi ar ddiwedd y rhyfel. Dywedwyd yn *The Carmarthen Journal* bod faciwîs a oedd yn mynd yn ôl i Lundain wedi profi 'croeso cynnes y Cymry ar ei orau'.

Efallai mai'r effaith fwyaf arwyddocaol a gafodd ymgilio ar y cymunedau a fu'n lletya faciwîs yng Nghymru oedd ar iaith a diwylliant. Mewn sawl ardal, roedd plant Saesneg eu hiaith yn cael eu lletya gan deuluoedd a oedd yn siarad Cymraeg, ac weithiau, roedd hyn yn tarfu ar gydbwysedd ieithyddol y gymuned. Ar y llaw arall, mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai faciwîs Saesneg wedi llwyr fynd i'r afael ag iaith a diwylliant y cymunedau oedd yn eu lletya, ac wedi dychwelyd i'w cartrefi gydag iaith ychwanegol!

## Dogni

Roedd llywodraeth Prydain yn gwybod y byddai'r Almaenwyr yn dilyn yr un cynllun ag yr oedden nhw wedi ei ddefnyddio yn y Rhyfel Byd Cyntaf, sef llwgu Prydain er mwyn iddi ildio. Roedd yr Almaenwyr yn gwybod bod yn rhaid i Brydain fewnforio bron 40% o'i bwyd o dramor, felly adeiladodd Hitler lynges o longau tanfor a'i defnyddio i suddo llongau masnach Prydain. Am dair blynedd gyntaf y rhyfel, roedd llongau tanfor yr Almaen yn llwyddiannus iawn. Ym mis Ebrill 1941 yn unig, suddwyd dros 700,000 tunnell o longau Prydain. Ar y Ffrynt Cartref, roedd disgwyl i'r cyhoedd aberthu er mwyn helpu i oresgyn bygythiad llongau tanfor yr Almaen. Sefydlodd y llywodraeth y Weinyddiaeth Fwyd, ac ym mis Ionawr 1940 cyflwynodd broses ddogni bwyd, gan ddogni dillad, petrol a glo yn fuan wedyn. Erbyn 1942 roedd hyd yn oed dŵr yn cael ei ddogni, a dim ond 13 cm o ddŵr yr oedd pobl yn ei gael  yn eu bath wythnosol! Derbyniodd pawb lyfrau dogni, a dim ond am nwyddau fel cig, wyau, menyn a siwgr mewn siopau lle'r oedd pobl wedi cofrestru yr oedd yn bosibl cyfnewid y cwponau dogni hyn. Nid oedd rhai bwydydd, fel bara, y rhan fwyaf o lysiau, a thatws yn cael eu dogni. Ond, roedd bron yn amhosibl cael gafael ar ffrwythau fel bananas, orenau a lemwnau, oni bai eu bod ar y farchnad ddu lle'r oedd yn bosibl prynu'r rhan fwyaf o eitemau a oedd yn cael eu dogni yn anghyfreithlon, ond am bris uchel iawn yn unig.

Mae un fenyw yn cofio sut y bu i brinder bwyd ei gyrru at fesurau eithafol:
Gwelodd gi yn gwibio allan o siop y cigydd â darn mawr o siwed yn ei geg. Dilynodd y ci ar ei beic a'i weld yn claddu'r siwed. 'Pan aeth y ci oddi yno, fe es i at y man [yn y pridd] ... i nôl y trysor a oedd wedi'i guddio ... Es i â'r siwed adref, torri'r rhan a oedd wedi cael ei rwygo ac yna gwneud pwdin siwed.[23]

Roedd ymgyrch Palu dros Fuddugoliaeth y Weinyddiaeth Fwyd yn annog bod yn hunangynhaliol; cododd nifer y rhandiroedd (darnau o dir a ddyrannwyd i bob teulu i dyfu bwyd) o 815,000 i 1.4 miliwn. Roedd moch, ieir a chwningod yn cael eu magu yn y cartref ar gyfer cig, ac roedd llysiau'n cael eu tyfu lle bynnag yr oedd yn bosibl trin y tir. Erbyn 1940 roedd gwastraffu bwyd yn drosedd. Lwfans wythnosol arferol un person fyddai: un wy ffres; 4 owns yr un o fargarîn a chig moch (tua phedair tafell); 2 owns o fenyn a the; 1 owns o gaws; ac 8 owns o siwgr. Byddai'r cig yn cael ei ddyrannu yn ôl y pris, felly daeth y toriadau rhatach yn boblogaidd. Roedd yn bosibl cronni neu gadw pwyntiau i brynu grawnfwydydd, nwyddau tun, ffrwythau sych, bisgedi a jam. Roedd rhai bwydydd yn dal i gael eu dogni ar ôl y rhyfel. Ni ddaeth dogni i ben tan 1955.

## Cyfraniad Menywod at ymdrech y rhyfel

Dywedodd un hanesydd, 'Cymerodd ryfel byd i roi rhyddid i fenywod, ond dau ryfel byd i roi cydraddoldeb iddyn nhw.' Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, rhoddwyd cyfle i fenywod brofi eu gwerth fel gweithwyr diwydiannol ac amaethyddol a bu canmol ar eu cyfraniad at ymdrech y rhyfel gan eu cyfoedion. Fodd bynnag, ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, daeth eu cyfraniad at ffyniant diwydiannol Prydain i ben hefyd. Rhoddwyd y swyddi yr oedd menywod wedi eu gwneud i'r milwyr a oedd yn dychwelyd o'r rhyfel.

Wrth i'r Ail Ryfel Byd ddechrau, nid oedd amheuaeth gan arweinwyr gwleidyddol Prydain y byddai angen y menywod eto. Cafodd miloedd yn fwy o fenywod eu recriwtio neu eu consgriptio ar gyfer ymdrech y rhyfel. Roedden nhw'n gweithio mewn ffatrïoedd yn gwneud deunyddiau rhyfel, ar y tir yn tyfu bwyd i fwydo'r genedl, ac yn yr ysbytai yn gofalu am y bobl sâl a'r rheini a oedd wedi'u hanafu. Mewn un ffatri arfau rhyfel ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd tua 7,000 o bobl yn cael eu cyflogi, ac roedd dros 65% ohonyn nhw'n fenywod.

Yn 1942, cyhoeddodd Clement Attlee, y Dirprwy Brif Weinidog, y datganiad canlynol:
Mae'n rhaid gweld y gwaith y mae menywod yn ei wneud mewn ffatrïoedd arfau rhyfel er mwyn ei gredu. Mae swyddi peirianneg fanwl a fyddai, ychydig o flynyddoedd yn ôl, wedi bod yn ddigon i godi gwrychyn [technegydd] medrus yn cael eu gwneud yn fanwl gywir gan ferched nad oedd ganddyn nhw ddim profiad diwydiannol.[24]

[23] N. Longmate, *How We Lived Then* (Llundain, 2002), t.149.
[24] Dyfynwyd Clement Atlee yn N. Longmate, *How We Lived Then* (Llundain, 2002), t. 337.

Yn 1942, anfonwyd adroddiad at Churchill gan Adran Ymchwil Llafur y llywodraeth a oedd yn dweud:
Mae miloedd o fenywod sydd am wirfoddoli yn ei chael yn anodd neu'n amhosibl ymgymryd â swydd rhyfel. Y rhesymau pwysicaf yw: cyflogau isel, meithrinfeydd dydd annigonol, oriau gwaith hir ac anawsterau siopa o ganlyniad, a chludiant annigonol.[25]
Gorchmynnodd Churchill adolygu a diwygio'r system. Flwyddyn yn ddiweddarach, yn 1943, cyhoeddodd y llywodraeth adroddiad o'r enw *Women in War Work*. Dyma ddetholiad ohono:
Mewn un ffatri mae'r menywod yn gweithio o 8 a.m. tan 5 p.m. Mae rhestr aros o bron 300, ac mewn deg wythnos mae'r taliad bonws wedi cynyddu, mae absenoldeb wedi gostwng, ac nid oes problemau blinder, siopa na chludiant, er bod y cyflogau [£2.20 yr wythnos] yn hynod o isel.[26]

Ar wahân i waith mewn ffatrïoedd a pheirianneg, cofrestrodd llawer o fenywod ar gyfer Byddin Tir y Menywod, a oedd yn gyfrifol am gynyddu faint o fwyd oedd yn cael ei gynhyrchu. Roedd y gwaith ar y ffermydd yn galed ac yn cael ei dalu'n wael, ond bu'n hanfodol wrth oresgyn colledion bwyd yn sgil ymosodiadau llongau tanfor yr Almaen. Roedd y gwasanaethau milwrol yn annog menywod i ymuno hefyd – yn y fyddin, roedd menywod yn ymuno â'r Gwasanaeth Tiriogaethol Ategol (*ATS: Auxiliary Territorial Service*), ac roedd y rheini a oedd â'u bryd ar y Llu Awyr yn ymuno â Llu Awyr Ategol y Menywod (*WAAF: Women's Auxiliary Air Force*).

Roedd Gwasanaeth Gwirfoddol y Menywod (*WVS: Women's Voluntary Service*) yn cyfrannu at ymdrech y rhyfel hefyd. Roedd gan y *WVS* filiwn o aelodau erbyn 1943, ac er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n hŷn, roedden nhw'n gwneud beth bynnag yr oedd angen ei wneud. Pan ofynnodd y llywodraeth i bobl roi metel sgrap ar gyfer ymdrech y rhyfel, casglodd *WVS* Portsmouth ddigon o fetel sgrap i lenwi pedwar cerbyd rheilffordd, a hynny mewn pedair wythnos. Defnyddiwyd hyn gan y llywodraeth i annog menywod eraill i wneud eu rhan ar gyfer ymdrech y rhyfel, ac mewn cyfres o ymgyrchoedd propaganda, y neges allweddol oedd 'Nid oes Llawer Na all Menywod ei Wneud'. Roedd cyfraniad menywod at ymdrech y rhyfel yn un anhygoel. Erbyn diwedd y rhyfel yn 1945, roedd 450,000 o fenywod yn y gwasanaethau milwrol, a thros 6 miliwn mewn gwaith rhyfel sifil.

[25] Carol Harris, *Women at War, 1939-45* (Stroud, 2000).
[26] Virginia Nicholson, *Millions Like Us: Women's Lives During the Second World War* (Llundain, 2011).

## Pa mor bwysig oedd cynnal ysbryd (*morale*) pobl yn ystod y rhyfel?

Adeg rhyfel, mae pob llywodraeth yn ceisio rheoli'r newyddion er mwyn celu'r gwirionedd; gelwir hyn yn sensoriaeth. Ym Mhrydain, fel yn yr Almaen, roedd pob math o gyfryngau torfol – y radio, papurau newydd, cylchgronau, ffilmiau sinema a ffilmiau newyddion – yn cael eu sensro. Sefydlwyd y Weinyddiaeth Wybodaeth, a rhoddwyd y dasg iddi o reoli'r rheolau ar sensoriaeth a phropaganda. Y nod oedd sicrhau mai dim ond y wybodaeth yr oedd y llywodraeth am iddyn nhw ei chael, neu'n credu y dylen nhw ei chael, y byddai'r bobl yn ei derbyn. Ni rannwyd llawer o newyddion drwg, felly roedd gwybodaeth am drychinebau milwrol a gorchfygiadau'n cael ei dal yn ôl neu'n cael ei chadw'n gyfrinachol.

## Y cyfryngau a phropaganda

Roedd y llywodraeth yn honni bod y cyfreithiau sensoriaeth yno i amddiffyn y bobl rhag celwyddau, sibrydion a phropaganda o'r Almaen. Roedd William Joyce, a gafodd y ffugenw Arglwydd Haw-Haw oherwydd ei lais crand, yn Americanwr Gwyddelig ac yn cefnogi Natsïaeth. Yn ystod y rhyfel roedd yn darlledu'n gyson i bobl Prydain o orsaf radio yn yr Almaen. Ei nod oedd difa ysbryd Prydain ac yn wir ystyriodd y llywodraeth sensro ei ddarllediadau  nes sylweddoli bod y rhan fwyaf o bobl yn ei drin fel jôc. Ar y llaw arall, gwaharddwyd y *Daily Worker*, papur newydd o blaid comiwnyddiaeth, am ei fod yn beirniadu'r llywodraeth ac ymdrech y rhyfel. Wrth gwrs, nid oedd newyddion da fel buddugoliaethau milwrol a llwyddiannau eraill yn cael eu sensro, ond yn aml roedd y gwir yn cael ei orbwysleisio er mwyn gwneud i'r buddugoliaethau ymddangos yn fwy nag oedden nhw. Propaganda oedd hyn. Roedd y ddwy ochr yn gwneud defnydd da o bropaganda a daeth y 'rhyfel geiriau' hwn yn arf pwysig yn ystod y rhyfel gan ei fod yn helpu i gynnal ysbryd y bobl.

Yr arf pwysicaf a oedd gan Brydain oedd y BBC. Roedd yn darlledu ym Mhrydain a thramor, felly gallai pobl y gwledydd a feddiannwyd wrando ar y newyddion hefyd. Roedd y BBC mor bwerus gan ei fod i'w glywed yn y cartref trwy'r radio. Trwy ddarllediadau radio, yn fwy na dim arall, yr oedd pobl yn derbyn eu newyddion a'u hadloniant.

Un o'r rhaglenni radio mwyaf poblogaidd oedd rhaglen Tommy Handley, *It's That Man Again*. I sicrhau nad oedd neb yn cael osgoi'r newyddion a'r propaganda a oedd yn cael ei reoli gan y llywodraeth, rhoddwyd posteri i fyny ym mhobman, yn amrywio o ddelweddau a oedd yn cymell i rai a oedd yn rhannu gwybodaeth syml. Roedd y sinema'n cael ei rheoleiddio gan y llywodraeth. Roedd y newyddion yn cael ei reoli; yn yr un modd roedd y diwydiant ffilmiau, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y llywodraeth i gynhyrchu ffilmiau gwladgarol o dan reolaeth y llywodraeth. Rhai o'r ffilmiau mwyaf poblogaidd a mwyaf pwerus am y rhyfel oedd *Went the Day Well?; The Day Will Dawn; Tomorrow We Live; a One of Our Aircraft Is Missing*. Rhyngddyn

nhw, gwnaeth y radio a'r sinema lawer i lunio agweddau a barn pobl Prydain. Trwyddyn nhw, roedd yn bosibl i'r llywodraeth lunio a rheoli barn y cyhoedd.

## Ymgyrchoedd ac apeliadau

Roedd y llywodraeth yn defnyddio'r cyfryngau a phropaganda i ddylanwadu ar feddylfryd y cyhoedd ym Mhrydain, ond roedd yn defnyddio ymgyrchoedd ac apeliadau i wneud i'r bobl deimlo eu bod wir yn gwneud rhywbeth ar gyfer ymdrech y rhyfel. Y dyn a oedd yn bennaf gyfrifol am wthio'r syniad o ymgyrchoedd ac apeliadau i gefnogi ymdrech y rhyfel oedd yr Arglwydd Beaverbrook, sef perchennog papur newydd a dyn busnes Prydeinig o Ganada. Yn 1940, roedd wedi cael ei alw i'r llywodraeth gan Churchill fel Gweinidog Cynhyrchu Awyrennau. Un o'i ymgyrchoedd mwyaf llwyddiannus oedd y Gronfa Spitfire, a wnaeth gipio dychymyg y bobl gyda phosteri propaganda fel yr un a ddangosir.



**Ffynhonell E**: Poster propaganda. Flickr Creative Commons http://bit.ly/2u8P5uu

I annog pobl i gyfrannu at y Gronfa Spitfire, roedd *Belfast Telegraph* yn cyhoeddi penawdau fel 'Spitfire y dydd i gadw'n gwlad yn rhydd'. Roedd papurau newydd rhanbarthol eraill yn annog eu darllenwyr i roi yn hael i'r gronfa hefyd, fel *South Wales Argus* a oedd yn cefnogi gwaith codi arian Richard Davies, Maer Casnewydd, o dan y pennawd: 'Bydd Spitfire gan Gasnewydd yn helpu'r ddynoliaeth'. Roedd pobl Casnewydd, fel llawer o bobl ledled y wlad, ar dân eisiau gwneud eu rhan, ac ym mis Gorffennaf 1940, lansiodd y dref ei hapêl i godi'r £5000 yr oedd ei angen i adeiladu Spitfire. Amcangyfrifwyd bod y Gronfa wedi bod yn gyfrifol am oddeutu 1,600 o'r 30,000 o awyrennau Spitfire a adeiladwyd yn ystod y rhyfel.

## Arweinyddiaeth Churchill fel arweinydd rhyfel

Ganwyd Winston Churchill i fywyd o gyfoeth a braint yn 1874. Roedd ei dad, yr Arglwydd Randolph Churchill, yn wleidydd Ceidwadol uchel ei barch. Daeth Winston yn filwr ac yna'n newyddiadurwr. Enillodd ei enw da am ddewrder a menter fel gohebydd rhyfel yn ystod Rhyfel Boer 1899–1902. Yn 1902 mentrodd i fyd gwleidyddiaeth fel AS Ceidwadol, gan newid plaid yn ddiweddarach ac ymuno â'r Rhyddfrydwyr. Daeth yn gyfeillgar â Lloyd George a gyda'i gilydd gwthion nhw lawer o ddiwygiadau cymdeithasol trwy'r Senedd. Pan ddechreuodd y Rhyfel Mawr,

Churchill a ddewiswyd i fod yn gyfrifol am y Llynges Frenhinol fel Prif Arglwydd y Morlys. Roedd yn Brif Arglwydd egnïol ac effeithlon, ond trychineb fu canlyniad ei gynlluniau i ymosod ar Dwrci a Gallipoli. Rhoddwyd y bai ar Churchill a gorfodwyd ef i ymddiswyddo. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1917, Lloyd George oedd y prif weinidog newydd, a rhoddodd swydd yn y llywodraeth i Churchill, sef Gweinidog Arfau Rhyfel. Roedd Churchill yn ddewis teilwng eto, a gweithiodd yn galed i gyflymu'r cyflenwad o arfau rhyfel ar gyfer y ffrynt.

Pan gollodd Lloyd George ei rym yn 1922, arhosodd Churchill yn y llywodraeth gan ymuno â'r Ceidwadwyr unwaith eto. Yn y Senedd, roedd llawer o'i gyd Geidwadwyr yn ddrwgdybus o Churchill, oherwydd iddo fod yn Rhyddfrydwr ar un adeg; nid oedd y Rhyddfrydwyr yn ymddiried ynddo gan ei fod wedi gwrthgilio at y Torïaid; roedd y Blaid Lafur yn ei gasáu oherwydd ei orchymyn i anfon milwyr i dorri streic y glowyr yn Nhonypandy yn 1910. Fel Canghellor y Trysorlys yn 1924 roedd yn wynebu'r dasg, a oedd bron yn amhosibl, o ddelio â'r dirwasgiad economaidd. Yn sgil ei doriadau i wariant y llywodraeth a'i alwadau i ostwng cyflogau, roedd yn amhoblogaidd. Parhaodd yn swydd y Canghellor tan 1929, ac yn y cyfnod hwn, enillodd gasineb y glowyr a Chyngres yr Undebau Llafur (*TUC: Trade Union Congress*) am ei ymdrechion i dorri'r Streic Gyffredinol yn 1926. Erbyn 1929 roedd wedi cweryla â sawl aelod o'i blaid ei hun ac wedi dod yn llafar iawn wrth feirniadu polisïau'r llywodraeth.

Roedd yn hynod o awyddus i berswadio'r llywodraeth a phobl Prydain i beidio ag ymddiried yn Stalin, Mussolini na Hitler. Roedd yn credu bod y polisi dyhuddo yn gamgymeriad a fyddai'n arwain at ryfel yn y pen draw. Fodd bynnag, ychydig iawn a wrandawodd ar ei rybuddion ynglŷn â pheryglon comiwnyddiaeth, ffasgaeth a Natsïaeth. Nid oedd y cyhoedd am wrando arno: roedd arnyn nhw ofn y posibilrwydd o ryfel arall, felly roedd yn well ganddyn nhw gredu yn y polisi tramor heddychlon yr oedd Baldwin a Chamberlain yn ei ddilyn. Roedd ffordd Churchill o ddelio â phobl fel Hitler yn ymddangos yn ymosodol iddyn nhw, ac felly roedd yn siŵr o arwain at ryfel.

## Beth oedd rôl Winston Churchill yn yr Ail Ryfel Byd?

Nid oedd Churchill wedi bod mewn grym ers dros ddeng mlynedd pan ddechreuodd y rhyfel ym mis Medi 1939. Roedd rhybuddion Churchill wedi dod yn wir; am y rheswm hwn, gwrthododd Chamberlain, a oedd wedi chwerwi, roi rôl iddo yn y llywodraeth. Fodd bynnag, roedd yr awyrgylch yn y wlad ac yn y Senedd wedi newid, ac roedd ASau bellach o blaid rhoi rôl Prif Arglwydd y Morlys i Churchill. Cytunodd Chamberlain, er bod hynny yn groes i'r graen iddo. Wrth i'r rhyfel fynd rhagddo, tyfodd Churchill mewn hyder a bri. Ar ôl yr ymosodiad ar Ffrainc ym mis Mai 1940, ac ar ôl araith bwerus gan Lloyd George yn dweud wrtho y dylai fynd,

ymddiswyddodd Chamberlain. Roedd rhai ASau o blaid rhoi swydd y prif weinidog i ddirprwy Chamberlain, yr Arglwydd Halifax, ond yn y pen draw, cytunwyd mai Churchill fyddai'r dyn mwyaf addas i arwain y llywodraeth glymblaid newydd.

Roedd Churchill yn arweinydd rhyfel heb ei ail. Dechreuodd godi ysbryd truenus pobl Prydain trwy roi areithiau angerddol ac ymweld yn bersonol ag amrywiol rannau o'r wlad. Roedd Churchill yn mynd ar daith o amgylch y dinasoedd a oedd wedi cael eu bomio, i roi cefnogaeth foesol pan oedd y Blitz ar ei waethaf. Hyd yn oed pan oedd Prydain yn dioddef problemau difrifol fel Dunkirk ym mis Mai 1940, y gorchfygiad yn rhyfel y diffeithdir ym mis Ionawr 1941 a chwymp Singapore i Japan ym mis Chwefror 1942, roedd Churchill yn codi ysbryd ei gydwladwyr trwy roi'r argraff ei fod yn credu'n gryf y bydden nhw'n ennill y rhyfel. Roedd araith gyntaf Churchill yn brif weinidog (13 Mai 1940) yn dweud:
Beth yw ein nod, gofynnwch? Gallaf ateb mewn un gair: Buddugoliaeth, buddugoliaeth waeth beth fo'r gost, buddugoliaeth er gwaethaf pob ofn, buddugoliaeth, waeth pa mor hir a chaled yw'r daith; oherwydd heb fuddugoliaeth, nid oes goroesi.[27]

Dechreuodd 'Ymgyrch at Fuddugoliaeth' Churchill ym mrwydr El Alamein ym mis Hydref 1942. Roedd dewis Churchill o gadfridog, sef Montgomery, i arwain Byddin Prydain yng Ngogledd Affrica yn llwyddiannus. Trechwyd yr Almaenwyr yn llwyr yn El Alamein ac eto yn Tunisia a Sicilia. Anogwyd cadfridogion y cynghreiriaid gan Churchill i oresgyn yr Eidal ym mis Gorffennaf 1943 a Ffrainc (D-Day) ym mis Mehefin 1944. Fe wnaeth ei waith caled sicrhau bod arweinwyr rhyfel y cynghreiriaid, sef Roosevelt yn UDA a Stalin yn UGSR, yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu er mwyn trechu Hitler a'r Almaen.



**Ffynhonell F**: Churchill, arweinydd rhyfel heb ei ail.
© **Pictorial Press / Alamy**

I'r rhan fwyaf o bobl Prydain, roedd buddugoliaeth y cynghreiriaid yn 1945 yn ganlyniad arweinyddiaeth ysbrydoledig Churchill. Ac eto, roedd ganddo elynion. Beirniadodd y gwleidydd Llafur Aneurin Bevan arweinyddiaeth Churchill trwy gydol y rhyfel. Ym mis Gorffennaf 1942 beirniadodd y ffaith bod Churchill wedi methu sicrhau llwyddiant yn y rhyfel, gan fynd

[27] 'Blood, Toil, Tears and Sweat', *The Churchill Centre*, ar-lein edn. gellir ei weld yma http://goo.gl/OPV0wA.

mor bell â galw am ddadl 'Diffyg Ymddiriedaeth'. Enillwyd y ddadl gan Churchill. Ond, gwnaeth Churchill gamgymeriadau hefyd. Mewn ymgais i fanteisio ar ei boblogrwydd, galwodd etholiad ym mis Gorffennaf 1945, a cholli'r etholiad. Roedd wedi gwneud camsyniad mawr ynglŷn â barn y bobl. Ond ni niweidiodd hyn ei enw. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn ymwrthod â gwleidyddiaeth y dyn, nid â'r dyn a oedd, ym marn pawb, wedi ennill y rhyfel.

I lawer o bobl, mae'r ffaith bod Churchill, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn gwbl ddigyfaddawd ac yn gwrthod cyfaddef bod Prydain wedi'i threchu yn golygu bod yr enw da sydd ganddo yn un na lwyddodd ond ychydig o wleidyddion ei ennill erioed. Ar ôl cyfnod byr yn brif weinidog rhwng 1951 ac 1955, ymddeolodd Churchill. Bu farw yn 1965.

## Pa mor anodd oedd yr amodau yng Nghymru a Lloegr yn 1945?

Ym mis Medi 1945 daeth yr Ail Ryfel Byd i ben. Ar ôl chwe blynedd o ymladd, daeth buddugoliaeth i'r gwledydd a fu'n gynghreiriaid adeg y rhyfel, sef Prydain, Unol Daleithiau America (UDA) ac Undeb y Gweriniaethau Sosialaidd Sofietaidd (UGSS). Fodd bynnag, talodd Prydain yn ddrud am y fuddugoliaeth: roedd y rhyfel byd wedi achosi chwalfa economaidd, ac wedi arwain at golli'r ymerodraeth fu ganddi.

## Y sefyllfa economaidd ym Mhrydain yn 1945

Roedd Prydain wedi gwario bron £7 biliwn, neu chwarter ei chyfoeth gwladol, ar yr ymdrech ryfel. Roedd ffatrïoedd a fu'n adeiladu ceir, oergelloedd, poptai a sugnwyr llwch bellach yn masgynhyrchu tanciau, gynau, bwledi a bomiau. Erbyn diwedd y rhyfel roedd £3,355 miliwn o ddyled gan Brydain. Yr unig wlad a ddaeth o'r rhyfel yn gyflawn, ac wedi gwneud elw, oedd Unol Daleithiau America. Cryfder diwydiannol enfawr UDA oedd y prif ffactor ym muddugoliaeth y cynghreiriaid. Ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, roedd ffatrïoedd America yn gallu troi'n gyflym o gynhyrchu deunyddiau rhyfel at gynhyrchu nwyddau traul. Yn anffodus, yn sgil difrod y rhyfel nid oedd Prydain yn gallu cystadlu bellach. Nid oedd ei diwydiannau'n gallu ymaddasu mor gyflym â rhai UDA nac yn gallu cynhyrchu'r un nifer o nwyddau traul â hi.

Nid oedd gwledydd Ewrop mewn cyflwr i allu prynu nwyddau o Brydain: roedd y rhyfel  wedi achosi difrod yno hefyd. Cafodd ei marchnadoedd tramor traddodiadol, a oedd wedi bod yn dirywio hyd yn oed cyn y rhyfel, eu dinistrio gan yr aflonyddwch a achoswyd gan y gwrthdaro. Bu cymorth ariannol UDA, o dan Gynllun Marshall, yn hanfodol wrth i wledydd Ewrop ailadeiladu eu heconomïau truenus; yn naturiol felly, at America y trodd y gwledydd newydd hyn am gefnogaeth. Ar y llaw arall, ym mis Awst 1945 daeth y cymorthdaliadau adeg rhyfel yr oedd Prydain wedi bod yn eu derbyn gan America i ben; gorfodwyd y wlad i ofalu amdani ei hun. Nid oedd Prydain bellach mewn sefyllfa i allu cynnig cefnogaeth ariannol na gwleidyddol i neb.

Roedd yn amlwg nad oedd Prydain bellach yn un o bwerau'r byd. Roedd UDA ac UGSS wedi mynd heibio iddi. Y gwledydd hyn oedd pwerau mawr y byd bellach. Roedd Prydain yn wlad wan, yn filwrol ac yn economaidd. Am nad oedd yn gallu nac yn barod i dalu am fyddin na llynges fawr, nid oedd mewn sefyllfa i allu atal yr Ymerodraeth Brydeinig rhag chwalu. Yn 1947 rhoddwyd annibyniaeth i India, sef y wlad fwyaf gwerthfawr ym meddiant Prydain. Rhoddwyd annibyniaeth i wledydd eraill yn fuan wedi hynny, ac yn raddol, bu farw'r cysyniad o Ymerodraeth Brydeinig, yn ogystal â'i realiti. Yn ei lle, anogodd llywodraeth Prydain y cysyniad o gymanwlad o wledydd a fu unwaith yn drefedigaethau, sef cysyniad a ddefnyddiwyd yn gyntaf yn 1931.

Ac eto, er gwaethaf y problemau economaidd, nid gofid a gwae yn unig oedd hanes Prydain ar ôl y rhyfel. Roedd y wlad wedi ennill rhyfel, roedd swyddi gan bawb, roedd yr iardiau llongau a'r pyllau glo yn gweithio i'w capasiti llawn unwaith eto ac roedd ymdeimlad o ddisgwyl dyfodol gwell. Roedd agweddau pobl yn newid. Nid oedd y rhan fwyaf o bobl Prydain am ddychwelyd at ddirwasgiad a diweithdra cyn y rhyfel, ac nid oedd cymaint o ots ganddyn nhw bellach am yr Ymerodraeth. Yn etholiad 1945 rhoddwyd cyfle iddyn nhw bleidleisio o blaid newid. Roedd yn amlwg i bawb nad oedd Prydain ar ôl y rhyfel bellach yn Brydain 'Fawr': nid oedd y Deyrnas Unedig bellach yn bŵer milwrol nac ymerodrol mawr, nac yn bŵer economaidd mawr ychwaith. Roedd Prydain Fawr wedi dechrau ar ei chyfnod o ddirywiad ar ôl y rhyfel.

## Adroddiad Beveridge

Un o effeithiau mwyaf arwyddocaol y rhyfel oedd yr effaith ar agweddau a syniadau'r llywodraeth. Roedd y sosialwyr, sef y Blaid Lafur yn bennaf, ac aelodau mwy blaengar o'r llywodraeth, yn sylweddoli y byddai'r rhyfel yn rhoi cyfle iddyn nhw newid ac ail-lunio cymdeithas Prydain. Wrth i Churchill ganolbwyntio ar ennill y rhyfel, roedd ei ddirprwy yn y llywodraeth glymblaid, Clement Attlee, yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer heddwch. Fel arweinydd y Blaid Lafur, roedd Attlee yn awyddus i roi ei egwyddorion sosialaidd ar waith. Yn 1942 cyhoeddodd William Beveridge adroddiad o'r enw *Social Insurance and Allied Services: Report* (Adroddiad Beveridge yw'r enw cyfarwydd arno). Ynddo roedd yn amlinellu'r math o ddiwygiadau cymdeithasol yr oedd yn credu y dylai'r llywodraeth eu rhoi ar waith ar ôl y rhyfel. Roedd ei adroddiad yn nodi bod pum 'Cawr Drwg' yn y gymdeithas y byddai'n rhaid i'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw cyn gallu gofalu'n iawn am bobl Prydain. Y 'Cewri Drwg' hyn oedd 'Angen, Afiechyd, Anwybodaeth, Aflendid a Diogi'. Roedd Adroddiad Beveridge yn galw am gyfres o ddiwygiadau radical i ddelio â phob un o'r rhain.

Roedd cynnwys yr adroddiad yn rhy radical o lawer i Churchill, ond yn groes i'r graen, cytunodd i dderbyn rhannau ohono. Ei brif nod oedd ennill y rhyfel. Ar y llaw arall, roedd ei ddirprwy yn y cabinet rhyfel, Clement Attlee, yn canmol yr adroddiad, gan ei fabwysiadu fel rhan o bolisïau'r Blaid Lafur. Ei brif nod oedd sicrhau heddwch. Roedd mwyafrif pobl Prydain yn croesawu'r adroddiad, ond roedd rhai yn ei wrthwynebu. Roedd llawer o Geidwadwyr yn credu y byddai'r diwygiadau'n rhy ddrud neu y byddai 'hunangymorth a hunanddibyniaeth y bobl gyffredin ' yn cael eu tanseilio. Argraffodd y papur newydd Torïaidd y Daily Telegraph y pennawd 'Hanner ffordd ar hyd y ffordd i Moscow'. Roedd yn credu bod Adroddiad Beveridge yn cynnig patrwm ar gyfer comiwnyddiaeth fel un Rwsia. Ymatebodd papur newydd Llafur y Daily Mirror gyda'r pennawd 'Dwylo oddi ar Adroddiad Beveridge'. Roedd yn honni bod yr adroddiad yn cynnig patrwm ar gyfer sosialaeth a fyddai'n gofalu am bawb.

Dyma ddarn o lythyr a ysgrifennwyd gan Vita Sackville-West at ei gŵr, AS Ceidwadol cyfoethog, yn 1942:
Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn anghofio am Adroddiad Beveridge. Wrth gwrs, rwyf o blaid rhoi addysg i'r bobl fel eu bod yn llai ofnadwy, yn llai cyfyngedig ac yn llai gwirion, ac o blaid gwario llawer o arian ar addysg estynedig, athrawon sy'n cael cyflogau gwell, ond nid wyf o blaid rhoi popeth iddyn nhw am ddim. Ni fydden nhw'n gwerthfawrogi hynny ta beth.
Iechyd, iawn. Addysg, iawn. Pensiwn i'r henoed, iawn am wn i, ond nid y math hwn o elusen a fydd yn gwneud i bobl blethu eu breichiau a theimlo nad oes angen iddyn nhw fentro o gwbl gan fod popeth yn cael ei ddarparu ar eu cyfer. Camgymeriad, mae'n siŵr!

Roedd Beveridge yn wynebu tasg enfawr wrth gynnig cynllun cydlynol a fyddai'n ail-lunio'r gymdeithas ar ôl y rhyfel. Roedd yr hyn a gynigiwyd ganddo yn ymestyn llawer ar y fframwaith yswiriant gwladol a roddwyd ar waith yn gyntaf gan David Lloyd George cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Byddai pob un o ddinasyddion Prydain yn gymwys, beth bynnag ei incwm, beth bynnag ei ddiffyg incwm. Byddai'r rheini heb swyddi a chartrefi yn cael help. Byddai'r rheini a oedd yn sâl yn cael eu gwella. Roedd y broses o gynllunio ar gyfer y wladwriaeth les newydd, radical ar ôl y rhyfel wedi dechrau. Ymdopi â difrod rhyfel.

## Difrod y rhyfel a dadfyddino

Fodd bynnag, ochr yn ochr â chynllunio ar gyfer gwladwriaeth les, roedd rhaid i'r llywodraeth ddelio ag effeithiau eraill, mwy amlwg, y rhyfel hefyd. Pan ddaeth y rhyfel i ben, roedd Prydain yn wlad a oedd wedi dioddef difrod difrifol. Roedd dinasoedd a threfi mawr Prydain wedi cael eu bomio, ac er bod y difrod yn amrywio, roedd canolfannau rhai trefi a dinasoedd fel Abertawe a Coventry bron

wedi eu dinistrio'n llwyr. Roedd 20 y cant o ysgolion a miloedd o siopau, ffatrïoedd a thai wedi cael eu difrodi neu eu dinistrio; byddai'n rhaid ailadeiladu'r rhain. Ond roedd popeth yn costio, felly penderfynodd y llywodraeth ganolbwyntio ar adeiladu tai ar gyfer y miloedd o bobl ddigartref. Yn y cyfamser, agorwyd 563 o wersylloedd y fyddin i'r cyhoedd, a'u defnyddio fel cartrefi dros dro. Yn swydd Gaint, roedd gan y cyngor lleol bron 1,300 o deuluoedd digartref, ond dim ond 120 o dai gwag. Penderfynodd gynnal loteri: tynnodd 1,300 o bobl docyn ar gyfer 120 o dai. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf mewn grym, adeiladodd y Blaid Lafur 22,000 o dai a chodi 41,000 o gartrefi dros dro neu dai parod (*prefabs: prefabricated homes*) a oedd i fod i bara am bum mlynedd. Roedd y llywodraeth yn credu y byddai digon o gartrefi parhaol ar gael erbyn hynny.

Cynyddodd y galw am gartrefi fforddiadwy yn sylweddol yn y cyfnod rhwng 1945 ac 1947 gan fod milwyr yn dychwelyd adref. Yn 1945 roedd dros bum miliwn o ddynion a menywod ym Myddin Prydain, yn y Llynges Frenhinol a'r Llu Awyr Brenhinol. Roedd y rhan fwyaf wedi cael eu consgriptio i wasanaethu am gyfnod y rhyfel yn unig, ac roedden nhw bellach am ddychwelyd adref. Dechreuwyd dadfyddino o fewn chwe wythnos i ddiwedd y rhyfel. Ernest Bevin, y Gweinidog Llafur a Gwasanaeth Cenedlaethol, a ddewiswyd i fod yn gyfrifol am y cynllun dadfyddino. Byddai mwyafrif y milwyr, yn ddynion a menywod, yn cael eu rhyddhau o'r lluoedd arfog yn ôl 'eu rhif oedran a gwasanaeth' (a gyfrifwyd yn ôl eu hoedran a sawl mis yr oedden nhw wedi gwasanaethu mewn gwisg filwrol). I gynorthwyo'r broses o ailadeiladu Prydain ar ôl y rhyfel, gwnaeth Bevin restr o 'ddynion allweddol' yr oedd eu sgiliau galwedigaethol hanfodol yn eu galluogi i gael eu rhyddhau cyn eu tro. Gan fod sefyllfa economaidd y wlad yn wan, teimlwyd y byddai lleihau maint y lluoedd arfog yn arbed arian i'r llywodraeth. Gan fod




**Ffynhonell Ff**: Canlyniad ymgyrch fomio'r Almaen. Roedd rhaid ailadeiladu neu atgyweirio'r tai hyn ar ôl y rhyfel.. © Granger, NYC / Alamy

cymaint o ddifrod ar ôl y rhyfel, roedd y llywodraeth yn hyderus y byddai'r miliynau o gyn-filwyr yn dod o hyd i waith, ac felly'n dod yn gyfarwydd â bywyd arferol, y tu allan i'r lluoedd arfog.

## Caledi ym Mhrydain

Fodd bynnag, roedd dod o hyd i waith yn anoddach na'r disgwyl. Roedd sefyllfa economaidd wan Prydain yn golygu ei bod yn anoddach dod o hyd i swyddi, a rhwng 1947 ac 1951 cynyddodd diweithdra o 400,000 i 1.75 miliwn. Roedd teuluoedd a oedd wedi bod ar wahân am nifer o flynyddoedd bellach yn gorfod dysgu addasu o'r newydd. Un peth sy'n tanlinellu'r problemau cymdeithasol a ddaeth yn sgil hyn yw'r gyfradd ysgaru ar ôl y rhyfel, a gododd yn sylweddol rhwng 1945 ac 1948. Mewn un flwyddyn yn unig – 1947 – proseswyd bron 70,000 o geisiadau yn y llysoedd. Effaith annisgwyl arall y rhyfel oedd bod prinder a dogni yn parhau. Gan fod y rhyfel wedi dod i ben, roedd llawer o bobl yn credu y byddai dogni hefyd yn dod i ben; cawson nhw eu siomi. Er bod cyflenwad y rhan fwyaf o fwydydd, deunyddiau crai a pheiriannau wedi gwella, parhau i fod yn brin yr oedd rhai bwydydd fel bara a thatws, ynghyd â phetrol, glo a dillad. Yn wir, ni ddaeth dogni i ben tan 1955.

'Mae diflastod o'n cwmpas,' ysgrifennodd un athro yn 1948. 'Mae'r strydoedd yn wag, mae'r goleuadau'n isel, mae dillad pobl yn flêr a'u byrddau'n wag.'[28] Mae'r farn hon yn disgrifio i'r dim beth yr oedd caledi ym Mhrydain yn ei olygu i'r bobl a oedd yn byw trwy'r cyfnod. Rhwng 1945 ac 1951, roedd Prydain yn hanner llwgu, yn fudr a dan ormes y dosbarthiadau. Ar ôl bron chwe blynedd o ryfel, roedd pobl wedi llwyr ymlâdd. Roedd ciwiau y tu allan i siopau bara yn gynnar bob bore ac roedd dros draean y 12 miliwn o dai heb ddŵr poeth na bath. Yn 1948 cyflwynodd Canghellor y Trysorlys, Syr Stafford Cripps, gyllideb caledi a oedd yn golygu rhewi cyflogau. Dywedodd wrth Gyngres yr Undebau Llafur, 'Cacen hyn a hyn o faint sydd ar gael. Os oes eisiau darn mwy ar lawer o bobl, dim ond trwy fynd ag ef oddi ar bobl eraill y mae hynny'n bosibl.'[29] Dyma oedd realiti Prydain 'dlawd' ar ôl y rhyfel.

## Etholiad Cyffredinol 1945

Cyn pen pythefnos ar ôl i'r rhyfel ddod i ben yn Ewrop – ym mis Mai 1945 – chwalwyd y llywodraeth glymblaid a fu o dan arweiniad Winston Churchill. Er nad oedd Churchill am weld y llywodraeth glymblaid yn chwalu, ni roddwyd llawer o ddewis iddo gan ei ddirprwy Clement Attlee, arweinydd y Blaid Lafur. Gwrthododd Attlee ei gefnogi o hynny allan. Dadleuodd Attlee mai trefniant adeg rhyfel oedd Churchill a'r llywodraeth glymblaid, a threfniant a oedd wedi llwyddo yn ei fwriad. Enillwyd y rhyfel ac roedd hi nawr yn bryd sicrhau heddwch. Fe wnaeth Churchill ymddeol a galw etholiad cyffredinol ar gyfer 5 Gorffennaf 1945.

[28] Dyfynwyd yn David Kynaston, *Austerity Britain, 1945-1951* (Llundain, 2007), t. 298.
[29] Dyfyniad llawn ar gael yn *The Monthly Labor Review* 65(5) (Tachwedd 1948), t. 511.

Yn ystod yr etholiad, roedd y gystadleuaeth yn bennaf rhwng y Ceidwadwyr, o dan arweiniad Churchill, a'r Blaid Lafur, o dan arweiniad Attlee. Roedd maint y Blaid Ryddfrydol, o dan arweiniad Syr Archibald Sinclair, wedi lleihau, a bellach nid oedd ganddi'r un math o bŵer ag oedd ganddi ar un adeg. Roedd y Ceidwadwyr yn credu y bydden nhw'n ennill gan fod Churchill yn enwog ac yn boblogaidd fel y dyn a oedd wedi ennill y rhyfel. Nid oedd Attlee mor hyderus y byddai'n ennill, ond roedd yn credu y byddai addewidion ei blaid am ddiwygiadau cymdeithasol ac economaidd radical yn dwyn llawer o gefnogaeth oddi ar y Torïaid. Roedd yn llygad ei le. Er mwyn sicrhau pleidlais i'r pum miliwn o filwyr, yn ddynion ac yn fenywod, a oedd dramor, ni chyhoeddwyd canlyniadau'r etholiad tan 26 Gorffennaf. Enillodd y Blaid Lafur fuddugoliaeth ysgubol, gan ddychwelyd i rym gyda'r mwyafrif mwyaf mewn hanes. Er bod y bobl yn dal i edmygu Churchill ac yn ei gymeradwyo, roedden nhw wedi penderfynu pleidleisio yn ei erbyn.

Fe wnaeth Derek Brown, newyddiadurwr a oedd yn ysgrifennu ar gyfer papur newydd The Guardian yn 2001, grynhoi arwyddocâd etholiad 1945: 'Roedd canlyniad etholiad cyffredinol 1945 yn fwy na syndod. Roedd yn ddaeargryn gwleidyddol.'[30] Mae nifer o resymau'n egluro pam roedd yr etholiad mor arwyddocaol:

- Roedd y ffaith i Winston Churchill, sef y dyn a oedd wedi ennill y rhyfel, gael ei drechu yn syndod mawr. Roedd llawer o bobl yn credu y byddai'n siŵr o gael ei ail-ethol, fel David Lloyd George yn y Rhyfel Mawr, am ei fod wedi arwain y wlad i fuddugoliaeth.
- Dyma oedd yr etholiad cyntaf ers deng mlynedd, a'r cyntaf i gael ei gynnal ar ôl rhyfel byd chwerw iawn.
- Roedd hyn yn enghraifft dda iawn o rym y bobl – nid oedd y bobl eisiau dychwelyd at ddirwasgiad y 1930au, roedden nhw am weld newid.
- Roedd cyfle gan lywodraeth Lafur fuddugoliaethus 1945 i lunio tirwedd wleidyddol, economaidd a chymdeithasol Prydain am y degawdau nesaf. Nid oedd yr un blaid wleidyddol wedi bod mewn safle i allu trawsnewid gwlad ers llywodraethau diwygiadol Rhyddfrydol Prydain cyn y Rhyfel Mawr. Sut llwyddodd y Blaid Lafur i sicrhau buddugoliaeth ysgubol yn yr etholiad? Roedd llawer o bobl wedi'u synnu gan faint buddugoliaeth y Blaid Lafur, gan gynnwys rhai o gefnogwyr y blaid ei hun. Er bod Winston Churchill yn hynod o boblogaidd, nid felly ei blaid. Ychydig iawn o bobl a oedd yn gallu anghofio dirwasgiad, cwymp economaidd, diweithdra a dyhuddiad Prydain Geidwadol cyn y rhyfel. Roedd llai fyth yn fodlon maddau i'r llywodraeth Geidwadol am nifer o fethiannau'r 1930au. Roedd barn papur newydd The Manchester Guardian ar y ffaith bod y Ceidwadwyr wedi'u trechu yn nodweddiadol o'r cyfnod, '. . . mae'r wlad wedi dewis gwneud heb Churchill yn hytrach na gorfod derbyn y Torïaid gydag e.'

[30] Derek Brown, '1945-51: Labour and the creation of the welfare state', *The Guardian*, ar-lein edn. 14 Mawrth 2001. http://goo.gl/xeWL8F

Roedd ymgyrch etholiadol y Torïaid yn drychinebus. Canolbwyntiodd y blaid ar bersonoliaeth Churchill a'i ymdrechion yn ystod y rhyfel. Roedd un o sloganau ymgyrch y Ceidwadwyr yn dweud, 'Helpwch ef i gwblhau'r gwaith.' Fodd bynnag, roedd pobl Prydain yn awyddus i roi'r rhyfel y tu cefn iddyn nhw – roedden nhw am edrych tua'r dyfodol. Yn waeth na'r slogan oedd trychineb darllediad etholiadol Churchill ar 4 Mehefin, pan ddywedodd:
Nid oes amheuaeth nad yw sosialaeth wedi'i gydblethu â thotalitariaeth a'r math gwaethaf o wladwriaeth-addoliad. Yn ei hanfod, mae sosialaeth yn ymosodiad, nid yn unig ar fenter Prydain, ond ar hawl yr unigolyn cyffredin i anadlu'n rhydd heb law ormesol, galed a thrwsgl dros ei geg a'i ffroenau. Byddai'n rhaid iddi [y Blaid Lafur] ddibynnu ar ryw fath o Gestapo a fyddai, heb amheuaeth, yn cael ei gyfarwyddo mewn ffordd garedig i gychwyn.[31]
Argraffodd y papur newydd Torïaidd y *Daily Express* y pennawd 'Gestapo ym Mhrydain os bydd y Sosialwyr yn ennill'. Roedd pobl Prydain yn ffieiddio at yr ymgais hon i gymharu'r Blaid Lafur â heddlu cudd Hitler.

Camfarnodd Churchill sut roedd y bobl yn teimlo, ond ni wnaeth Attlee yr un camgymeriad. Dyma oedd yr etholiad cyntaf ers deng mlynedd ac roedd Attlee yn gwybod bod agweddau wedi newid. Roedd hefyd yn ymwybodol bod y bobl yn gobeithio cael Prydain well a thecach ar ôl y rhyfel. Canolbwyntiodd ei blaid ar ymgyrch etholiadol gadarnhaol gyda'r slogan, 'Gadewch i ni wynebu'r dyfodol gyda'n gilydd'. Roedd y Blaid Lafur yn addo swyddi, cyflogau teg, tai da, pensiwn ar gyfer yr henoed, addysg am ddim a meddyginiaeth a gofal iechyd am ddim. Roedd hefyd yn addo ailadeiladu economi'r wlad ac adfer cyfoeth y wlad. Roedd pobl Prydain yn barod ar gyfer y 'Brydain wahanol' hon.

## Sut gwnaeth y Llywodraeth Lafur ddelio â phroblemau'r cyfnod?

Ar ôl ennill yr etholiad cyffredinol, roedd rhaid i'r llywodraeth Lafur newydd wynebu'r dasg  o wireddu ei haddewidion i bobl Prydain. Roedd y bobl yn disgwyl llawer ganddi. Roedd ymdeimlad cyffredinol na ddylid gadael i'r wlad 'fethu' eto, fel oedd wedi digwydd yn 1918. Roedd y dasg a oedd yn wynebu'r Blaid Lafur yn anferthol. Roedd y wlad yn dioddef yn sgil effeithiau difrod y rhyfel, a byddai'n rhaid rhoi trefn ar hyn cyn gallu dechrau rhoi eu cynlluniau ar gyfer diwygiadau cymdeithasol ac economaidd ar waith.

## Gwleidyddion allweddol

Llond dwrn o bobl yn unig a oedd yn cwyno am y prinder gan eu bod nhw wedi dod i arfer â nhw dros flynyddoedd maith y rhyfel. Roedd y bobl yn gwybod y byddai'n

[31] Dyfynwyd yn '1945 General Election', *HistoryLearningSite.co.uk,* ar-lein edn. 2011. http://goo.gl/JH3l8x

cymryd amser i'r gwelliannau a addawyd gan y llywodraeth gael effaith. Roedden nhw'n fodlon aros oherwydd eu bod nhw'n ymddiried yn aelodau llywodraeth Clement Attlee i gwblhau'r gwaith. Roedd dynion fel Aneurin 'Nye' Bevan, y Gweinidog Iechyd a Thai, Emanuel 'Manny' Shinwell, y Gweinidog Pŵer a Glo, Ernest Bevin, yr Ysgrifennydd Tramor, Stafford Cripps, y Gweinidog Masnach, Hugh Dalton, Canghellor y Trysorlys a John Strachey, y Gweinidog Bwyd yn cael eu hystyried yn ddynion gonest a oedd yn gweithio'n galed. Hyd yn oed yn ystod cyfnod gwaethaf tywydd garw gaeaf 1947, roedd pobl yn dweud, 'Rydym ni'n llwgu gyda Strachey ac yn crynu gyda Shinwell.' Er bod y Prif Weinidog yn ddyn tawel a swil, roedd yn arweinydd pwerus, uchel ei barch a lwyddodd i gadw ei addewidion i'r bobl.

## O'r crud i'r bedd: Adroddiad Beveridge




**Ffynhonell G**: Poster ymgyrchu'r Blaid Lafur.
© Lebrecht / Alamy

Ar ôl dod i rym, dechreuodd y llywodraeth Lafur ddelio â 'Chewri Drwg' Beveridge. Canolbwyntiodd ar ddarparu sicrwydd incwm, gwell iechyd, addysg, tai a chyflogaeth lawn. Roedd un o weinidogion pwysicaf y llywodraeth, Aneurin Bevan, yn awyddus i bwysleisio ymrwymiad y llywodraeth Lafur i sefydlu system o lwfansau teuluol ac i sefydlu gwasanaeth iechyd gwladol am ddim. Ei weledigaeth ef oedd gwlad a fyddai'n gofalu am y bobl 'o'r crud i'r bedd'. Wrth gyrraedd y nod hwn, canolbwyntiodd y llywodraeth ar sicrwydd incwm. Yn 1946 roedd Attlee yn falch iawn o gyflwyno diwygiadau cymdeithasol cyntaf y Blaid Lafur. Gan annerch Senedd lawn, cyhoeddodd, 'Mae'r Bil hwn yn seiliedig ar Adroddiad Beveridge.' Dyma'r Ddeddf Yswiriant Gwladol. Roedd y ddeddf yn rhoi budd-daliadau i fenywod beichiog a phobl ddi-waith, pensiynau i'r sawl a oedd wedi ymddeol a lwfansau i bobl sâl, gweddwon, a mamau â phlant. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cyflwynwyd y Ddeddf Anafiadau Diwydiannol a oedd yn darparu iawndal ar gyfer gweithwyr a oedd wedi'u hanafu.

Y gweinidog a oedd yn gyfrifol am y ddeddf bwysig hon oedd James Griffiths, AS Llanelli, sef Cymro talentog a chyn-löwr o'r Betws ger Rhydaman. I ddilyn, yn 1948 cyflwynodd Griffiths yntau'r Ddeddf Cymorth Gwladol a oedd yn darparu 'rhwyd ddiogelwch' 'i gynorthwyo pobl . . . heb adnoddau, neu bobl y mae'n rhaid

ychwanegu at eu hadnoddau'. Dilëwyd Cyfraith y Tlodion a'r tlotai, a dilëwyd Byrddau Cymorth Diweithdra (*UAB: Unemployment Assistance Boards*) y 1930au hefyd. Erbyn 1949 roedd ychydig dros filiwn o bobl, yr henoed yn bennaf, yn cael cymorth o dan y ddeddf hon.

## Darparu swyddi

Roedd y Weinyddiaeth Lafur yn benderfynol na ddylai'r wlad fyth eto brofi cywilydd diweithdra ar raddfa fawr. Yn 1948 ceisiodd y Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant sefydlu gweithlu medrus. Rhoddodd arian i hyfforddi'r sawl a oedd yn gadael yr ysgol, ac i ailhyfforddi pobl eraill ar gyfer mathau gwahanol o gyflogaeth. Rhoddwyd i bobl a oedd yn byw yn yr ardaloedd a oedd yn arfer bod yn ddifreintiedig, fel Cymru, y cyfle i gystadlu yn y byd gwaith. Erbyn 1947 cofrestrwyd diweithdra yng Nghymru ar 5.2 y cant yn unig, neu 44,000 o bobl.

## Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG

Efallai mai Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1946 yw'r fwyaf adnabyddus o holl ddiwygiadau cymdeithasol y Blaid Lafur. Roedd ei nod yn uchelgeisiol, sef sefydlu gwasanaeth iechyd 'a fydd yn rhad ac am ddim' ac ar gael i bawb. Roedd hyn yn newid radical. Er bod Lloyd George a llywodraethau Rhyddfrydol 1906-14 wedi sefydlu gwasanaeth iechyd am ddim i weithwyr a oedd yn talu yswiriant, roedd rhaid i'w gwragedd a'u plant dalu am driniaeth. Roedd rhaid talu am ymweliadau â'r meddyg a ganddo, ac am feddyginiaethau, sbectolau a thriniaeth ddeintyddol. Roedd iechyd, dannedd a golwg y sawl nad oedd yn gallu fforddio talu am ofal meddygol yn dioddef; roedd rhai hyd yn oed yn marw. Roedd gan y bil ei gefnogwyr yn ogystal â'i feirniaid, ond ar 5 Gorffennaf 1948 daeth yn gyfraith. Erbyn 1949 roedd 8.5 miliwn o bobl wedi cael triniaeth ddeintyddol, roedd 5.75 miliwn o sbectolau wedi cael eu dyrannu, ac roedd tua 187 miliwn o bresgripsiynau wedi cael eu hysgrifennu. Erbyn 1951 dim ond 1.5 y cant o'r boblogaeth oedd yn dal y tu allan i'r GIG, ond roedd y gwasanaeth yn ddrud i'w redeg, gan gostio tua £355 miliwn y flwyddyn.

Y dyn a oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r GIG oedd Aneurin Bevan, y Gweinidog Iechyd. Mewn araith yn 1946, amlinellodd ei weledigaeth:
Dylid sicrhau bod triniaeth feddygol ar gael i bobl gyfoethog a thlawd fel ei gilydd, yn unol â'u hangen meddygol, nid unrhyw feini prawf eraill. Mae poeni am arian mewn cyfnod o salwch yn llesteirio gwellhad, ac mae'n greulondeb diangen. Mewn teulu cyffredin, mae'r cofnodion yn dangos mai'r fam sy'n dioddef fwyaf yn sgil absenoldeb gwasanaeth iechyd llawn. Wrth geisio mantoli ei chyllideb, mae'n rhoi ei hanghenion ei hun yn olaf. Ni all unrhyw gymdeithas ei galw ei hun yn waraidd pan wrthodir rhoi cymorth meddygol i unigolyn sâl oherwydd prinder arian. Hanfod

[32] Gweler *National Health Service Sources*. http://goo.gl/ROIDSL

gwasanaeth iechyd boddhaol yw trin y bobl gyfoethog a'r bobl dlawd yr un fath, heb i dlodi fod yn rhwystr nac i gyfoeth fod yn fantais.[32]



**Ffynhonell Ng**: Gwasanaeth iechyd gwladol am ddim ac i bawb. © H. Armstrong Roberts / Alamy

Nid pawb oedd o blaid Gwasanaeth Iechyd Gwladol, fodd bynnag. Roedd rhai meddygon yn gwrthwynebu'r ffaith y gallen nhw gael eu gorfodi i weithio i'r wladwriaeth. Roedden nhw'n rhoi gwerth mawr ar eu hannibyniaeth a'u cyflogau mawr. Roedd rhifyn y *British Medical Journal*, a gyhoeddwyd yn 1946, yn amlinellu eu pryderon:


Os caiff y Bil ei basio, ni fydd unrhyw glaf na meddyg yn teimlo'n ddiogel rhag ymyrraeth rhyw reoleiddiad . . . gweinidogol. Bydd ysbiwyr y Gweinidog ym mhobman, a bydd cynllwynio'n rheoli'r dydd.[33]

Roedd papur newydd y *Daily Sketch* yn rhannu pryderon y meddygon:

Mae'r Bil yn bygwth annibyniaeth y meddyg teulu. Mae ar feddygon ofn troi'n weision i'r llywodraeth, ac mae'r ofn hwnnw wedi'i gyfiawnhau.[34]

Adroddodd papur newydd y *Daily Mail* am enedigaeth y GIG mewn erthygl olygyddol a gyhoeddwyd yn 1948:

Fore Llun byddwch yn deffro mewn Prydain Newydd, gwladwriaeth sy'n gofalu am ei dinasyddion chwe mis cyn iddyn nhw gael eu geni, gan ddarparu gofal a gwasanaethau am ddim ar gyfer eu genedigaeth, eu haddysg, salwch, diwrnodau heb waith, gweddwdod ac ymddeoliad. Yn olaf, bydd yn helpu i dalu'r costau pan fyddan nhw'n ymadael




**Ffynhonell H**: Cyfyng-gyngor y claf. Heb lwyddo i olrhain yr hawlfraint. A fyddech cystal â chysylltu â ni os chi yw deiliad yr hawlfraint.

[33] Dyfynwyd yn http://goo.gl/QnZHH6
[34] Dyfynwyd yn Michael Foot, *Aneurin Bevan: a biography* (2 gyfrol, Llundain, 1973), ii, t. 142.
[35] *Daily Mail,* 3 Gorffennaf 1948.

â'r byd hwn. Hyn oll, gyda gofal meddygol, gofal deintyddol a meddyginiaethau am ddim – seddi bath am ddim hefyd, os oes eu hangen – am 4/- 11d [25c] o'ch cyflog wythnosol.[35]

Yn ei lyfr, Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980, a gyhoeddwyd yn 1981, disgrifiodd yr hanesydd Kenneth O. Morgan yr effaith a gafodd y GIG yng Nghymru:
Roedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, sef creadigaeth un o feibion blaenllaw y cymoedd, Aneurin Bevan, yn hynod o boblogaidd yma. Mae'n ymddangos ei fod yn boblogaidd hyd yn oed ymhlith meddygon Cymru, a oedd yn ymwneud mwy, efallai, â'r gymuned leol na meddygon Lloegr. Nododd y *Lancet* [cylchgrawn swyddogol ar gyfer meddygon] fod cyfradd uwch o feddygon teulu yng Nghymru (37 y cant) nag yn Lloegr wedi cytuno i weithredu o dan y Gwasanaeth Iechyd yn 1947, heb aros am gymeradwyaeth . . . Cymdeithas Feddygol Prydain.[36]

Ar 29 Ebrill 1951 ymddangosodd proffil bywgraffyddol o'r gweinidog iechyd ym mhapur newydd yr *Observer*:
Ganed Aneurin Bevan yn 1897 yn nhref lofaol Tredegyr . . .
Glofeydd De Cymru oedd y lleoliad cymdeithasol lle aeddfedodd ei gymeriad llencynnaidd, . . . cyn ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Hon oedd ardal fwyaf llwm y Deyrnas Unedig, yr ardal a oedd yn teimlo . . . y lleiaf o gyswllt â'r rhyfel yn erbyn y Kaiser [yr Almaenwyr]. . .
Wrth i . . . Lloyd George ddod yn dad ar y wlad hon yn ei hangen . . . roedd yr Aneurin ifanc . . 'plentyn pen stryd' diwydiannol, yn ymwrthod â ffordd o fyw ei gyndeidiau. Roedd yn teimlo ei fod yn gwybod yn well beth oedd gwir anghenion ei genhedlaeth, ac yn teimlo nad oedd gwladgarwch yn emosiwn defnyddiol.
Yr unig syniadau a fabwysiadodd gan ei dad oedd y syniadau a fynegwyd gan Gymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegyr (Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar raddfa fechan iawn). Roedd ei dad yn un o'r sylfaenwyr, ac fe wnaeth Aneurin ymladd ei frwydr gyntaf â changen leol o Gymdeithas Feddygol Prydain pan oedden nhw'n dymuno boicotio cymdeithas [gystadleuol] y glowyr. Yr unig syniadau a dderbyniodd gan Lloyd George oedd y rheini yn ei Ddeddf Yswiriant Gwladol . . .
Yn y tridegau, ni fu'n ymweld â'r gwledydd a oedd yn cael eu bygwth neu eu meddiannu gan Ffasgaeth, fel y gwnaeth Ellen Wilkinson [AS Jarrow], ond atgyfnerthodd ei safle yn Sir Fynwy gan siarad yn Nhŷ'r Cyffredin am lo. Ni fydd pobl yn ei gofio am ei areithiau yn rhybuddio yn erbyn Hitler . . . ond yn hytrach am ei ymosodiadau ffyrnig ar Churchill yn ystod y rhyfel. Ac ar ôl y rhyfel . . . . canolbwyntiodd ar faterion domestig – er gwaethaf argyfwng amlwg y byd . . .
Ymdrech fwyaf cadarn ac adeiladol ei yrfa wleidyddol, wrth gwrs, yw sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'n hawdd gweld sut roedd ei hyfforddiant cynnar wedi rhoi'r sgiliau iddo allu rhagori ar dactegau'r meddygon – ymosododd ar eu hystlys a'u dal trwy chwarae ar chwant croengaled rhyw feddygon ymgynghorol pwysig am bŵer ac arian [trechodd nhw trwy chwarae ar eu chwant am bŵer ac

[36] Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Rhydychen, 1981) t. 345-6

arian]. Ac roedd ei gymhelliant yn amlwg – roedd ei brofiadau ei hun wedi rhoi digon o reswm iddo gredu'n daer yn yr angen am wasanaeth iechyd rhad ac am ddim ar gyfer y bobl dlawd.
Beth sy'n fwy syfrdanol yw ei lwyddiant gweinyddol. Nid yn unig y sefydlodd y gwasanaeth [iechyd] ar yr adeg iawn, er gwaethaf yr holl rwystrau, ond enillodd barch ei weision sifil ei hun. Efallai mai dyma'r un bennod yn ei yrfa sy'n cyfiawnhau ei gymharu o ran statws a bri â Lloyd George.[37]

Ysgrifennwyd braslun bywgraffyddol yr *Observer* i nodi ymddiswyddiad Bevan o'r llywodraeth. Ymddiswyddodd wrth i'r llywodraeth gyflwyno ffioedd presgripsiwn am feddyginiaethau. Yn ei farn ef, roedd y 'dreth' hon ar iechyd yn bradychu'r egwyddor o ofal iechyd am ddim yn y man darparu. Nid oedd ei frwdfrydedd dros helpu'r tlawd a'r anghenus, a'i ymosodiadau di-flewyn-ar-dafod ar y rheini yr oedd yn eu cyhuddo o fradychu dosbarth gwaith Prydain, yn boblogaidd. Roedd hyd yn oed yn cweryla gydag aelodau o'i blaid ei hun. Ond roedd ei ffrindiau a'i elynion fel ei gilydd yn ei barchu.

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw llwyddiant mwyaf y Blaid Lafur hyd heddiw. Ni lwyddwyd i sefydlu'r GIG ar chwarae bach; bu dwy flynedd drom o wrthwynebiad llym gan y sefydliad meddygol, gydag ymgynghorwyr yn bygwth streicio, a Chymdeithas Feddygol Prydain yn rhybuddio rhag biwrocratiaeth a'r gost. Dangoswyd yn ddiweddarach bod cryn dipyn o wirionedd yn y rhybuddio hwn, a gorfodwyd y llywodraeth i ailystyried y weledigaeth fawr a oedd ganddi'n wreiddiol o ofal iechyd cynhwysfawr am ddim ac i bawb. Ar y dechrau, darparwyd popeth: lle mewn ysbyty, meddyg teulu, meddyginiaeth, gofal deintyddol, a hyd yn oed sbectolau. Ond gan nad oedd Prydain yn dangos llawer o arwyddion o gyfoeth a thwf economaidd, roedd y baich ariannol yn enfawr. Yn 1951 bu rhaid i Ganghellor y Trysorlys, Hugh Gaitskell, ailgyflwyno ffioedd ar gyfer sbectolau a dannedd gosod y GIG. Mewn protest, ymddiswyddodd Aneurin Bevan a Harold Wilson, sef darpar arweinydd y Blaid Lafur a darpar brif weinidog, o'r llywodraeth mewn protest. Dyma oedd dechrau'r diwedd i'r llywodraeth Lafur a oedd wedi sicrhau diwygiadau pwysig ar ôl y rhyfel.

## Cyfleoedd addysgol yn dilyn Deddf 1944

Mae llawer o bobl yn ystyried llywodraeth Attlee yn un o weinyddiaethau diwygiadol pwysig yr ugeinfed ganrif. Efallai ei bod yn eironig bod y symbyliad ar gyfer y diwygiadau mwyaf parhaol wedi dod o'r tu allan i'r Blaid Lafur. Er enghraifft, nid oedd y dyn a oedd yn gyfrifol am y diwygiad addysg yn aelod o lywodraeth Lafur 1945. Yr AS Ceidwadol R. A. Butler (a oedd yn cael ei alw'n RAB) oedd hwnnw, sef gweinidog y Bwrdd Addysg yn llywodraeth glymblaid Churchill adeg y rhyfel. Ei ymateb i Adroddiad Beveridge oedd pasio Deddf Addysg 1944. Trwy'r ddeddf hon,

[37] 'Profile – Aneurin Bevan', *The Observer*, 29 Ebrill 1951, t. 2

roedd yn gobeithio cael gwared ar anwybodaeth trwy sefydlu addysg gynradd ac uwchradd am ddim, a thrwy gynnig 'amrywiaeth a chydraddoldeb o ran cyfleoedd' i bob plentyn. Yn anffodus, ni roddwyd cyfle iddo weithredu telerau'r ddeddf yn llawn oherwydd y rhyfel a diffyg arian. Yn 1947 daeth y ddeddf yn gyfraith o dan y llywodraeth Lafur.

Roedd y ddeddf yn gwneud addysg uwchradd yn orfodol hyd at 15 oed, ac roedd yn darparu prydau bwyd, llaeth a gwasanaethau meddygol ym mhob ysgol. Roedd arholiad pan oedd plant yn 11 mlwydd oed (o'r enw'r eleven plus) yn eu rhoi mewn mathau gwahanol o ysgolion, yn ôl eu gallu. Roedd y plant a oedd yn pasio'r arholiad hwn yn mynd i ysgolion gramadeg ac roedd disgwyl iddyn nhw barhau â'u hastudiaethau ar ôl troi'n 15 oed, gan fynd i'r brifysgol, o bosibl, a chael swyddi proffesiynol. Nid oedd disgwyl i blant a oedd yn methu'r arholiad aros yn yr ysgol ar ôl troi'n 15 oed. Roedd disgwyl y bydden nhw'n cael swyddi heb grefft yn bennaf.

Er mwyn darparu'r addysg deg hon, cyfrifodd y llywodraeth Lafur fod angen iddi ddarparu o leiaf 60,000 o athrawon newydd, darparu dros hanner miliwn o lefydd newydd mewn ysgolion a disodli neu atgyweirio dros bum mil o ysgolion a oedd wedi cael eu dinistrio neu eu difrodi yn ystod y rhyfel. Roedd y ddeddf hon yn bwysig gan ei bod yn cynnig polisïau addysgol newydd ac arloesol i'r wlad. Roedd y diwygiadau addysg yn llwyddiannus gan fod llawer o fyfyrwyr wedi cael addysg sylfaenol dda a nifer mawr iawn wedi datblygu'r sgiliau yr oedd eu hangen i sicrhau gwaith.

## Tai: polisi 'Cartrefi i Bawb'

Roedd Beveridge wedi enwi tai gwael neu dai slym fel un o'r 'cewri' y byddai'n rhaid i lywodraethau'r dyfodol ddelio â nhw. Roedd Beveridge yn ystyried bod tai gwael yn arwain at dlodi ac anobaith ym Mhrydain. Roedd y broblem hon wedi gwaethygu yn ystod y rhyfel gan fod nifer helaeth o dai'r wlad, sef bron pedair miliwn o gartrefi, naill ai wedi cael eu dinistrio neu eu difrodi yn ystod ymgyrch fomio'r Almaen. Nid oedd llawer o waith atgyweirio neu ailadeiladu yn gallu digwydd yn ystod y rhyfel; dyna pam y daeth y prinder tai difrifol yn un o brif broblemau'r llywodraeth Lafur ar ôl y rhyfel. O dan Aneurin Bevan, dilynodd y llywodraeth Lafur bolisi uchelgeisiol o'r enw 'Cartrefi i Bawb'.

Un ateb i'r prinder tai oedd bod y llywodraeth yn adeiladu tai parod, neu '*pre-fabs*' (*pre-fabricated homes*). Roedd y rhain yn cael eu masgynhyrchu, ac erbyn 1948 roedd bron 130,000 wedi cael eu hadeiladu a'u dosbarthu i'r ardaloedd â'r angen mwyaf. Tai dros dro oedd y tai parod hyn i fod, ond roedd llawer wedi'u hadeiladu mor dda, roedden nhw'n para am ddegawdau. Treuliodd y llywodraeth amser ac arian hefyd yn adeiladu fflatiau a thai cyngor o ansawdd da. Ar y llaw arall, gan fod

y llywodraeth yn benderfynol o ofalu am anghenion aelodau tlotaf y gymdeithas, roedd yn cyfyngu ar adeiladu a gwerthu tai preifat. Roedd y polisi yn llwyddiannus



**Ffynhonell I**: Roedd merched Ysgol Eilradd Fodern Bourne, Ruislip, swydd Middlesex, ymhlith y disgyblion cyntaf i elwa ar y ddeddf addysg newydd. © Harrison / Stinger / getty images

ar y cyfan, ond roedd y difrod a gafodd ei wneud yn ystod y rhyfel mor ddifrifol fel y bu prinder tai o ansawdd da yn broblem barhaus tan y 1960au.

## Gwladoli

Roedd ymrwymiad y Blaid Lafur i newid economaidd mor bwysig â'i diwygiadau cymdeithasol. Roedd y llywodraeth am gyflwyno mesurau radical i wneud yn siŵr y byddai diwydiant Prydain yn dod yn fwy effeithlon a chystadleuol. Roedd Attlee yn credu mai'r unig ffordd o gyflawni'r nod hwn oedd gwladoli'r holl ddiwydiannau allweddol ym Mhrydain. Roedd gwladoli'n golygu trosglwyddo'r diwydiannau o berchenogaeth breifat i reolaeth y llywodraeth. Roedd y diwydiannau hyn yn cynnwys glo, nwy, trydan, cludiant, cwmnïau awyrennau a haearn a dur. Roedd y Prif Weinidog yn dadlau bod angen buddsoddiad enfawr ar rai o'r diwydiannau hyn er mwyn eu moderneiddio.

Roedd y Ceidwadwyr, ynghyd â llawer o ddynion busnes a diwydianwyr, yn gwrthwynebu gwladoli. Yn 1949 ymladdodd y Ceidwadwyr, o dan arweiniad Churchill, yn galed i atal y Ddeddf ar gyfer Gwladoli Haearn a Dur rhag mynd trwy'r Senedd. Er bod y ddeddf wedi'i phasio yn Nhŷ'r Cyffredin, cafodd ei gohirio am flwyddyn bron gan fod gan y Ceidwadwyr fwyafrif yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Roedd polisi gwladoli yn gwneud synnwyr am resymau eraill hefyd. Roedd y Blaid Lafur wedi credu ers tro byd nad oedd yn iawn i ychydig o berchenogion a chyfranddalwyr yn unig elwa ar y diwydiannau allweddol hyn; dylai pawb elwa

arnynt. Roedd yn teimlo, felly, y byddai'r gweithwyr yn cael budd o gael eu cyflogi mewn diwydiannau a oedd yn cael eu rhedeg gan y wladwriaeth, oherwydd bydden nhw'n gweithio i'r wlad ac iddyn nhw eu hunain. Byddai eu hawliau'n cael eu gwarchod gan ganllawiau cenedlaethol wedi'u gwarantu gan y llywodraeth. At ei gilydd, llwyddodd y Blaid Lafur i wladoli tua 20 y cant o'r economi.
Gwladolwyd y diwydiannau canlynol rhwng 1946 ac 1950:
1946 Banc Lloegr Y Pyllau Glo
1947 Cebl a Di-wifr
1948 Cludiant
1949 Nwy Haearn a Dur

## Yn ôl yr hanesydd Peter Lane:

Roedd sosialwyr yn gobeithio y byddai gwladoli yn arwain at bobl 'hapusach' – byddai'r gweithwyr yn teimlo balchder 'newydd' yn eu diwydiant 'nhw' a byddai defnyddwyr yn teimlo'r un balchder yn y diwydiannau yr oedden nhw'n 'berchen' arnynt. Byddai elw o ddiwydiannau dan reolaeth y wladwriaeth yn cael ei ddefnyddio naill ai i leihau trethi neu i gynyddu'r gwariant ar ddarpariaeth lles.[38]
Mae'n bosibl gweld y problemau a oedd yn wynebu'r llywodraeth wrth iddi geisio gwladoli cynifer o ddiwydiannau pwysig trwy edrych ar y diwydiant glo. Yn 1947




**Ffynhonell J**: Y diwydiant glo mewn dwylo cyhoeddus . . . 'ar ran y bobl'. © Topham Picturepoint topfoto.co.uk

roedd 1,500 o byllau glo ym Mhrydain a oedd yn eiddo i dros 800 o gwmnïau a

[38] Peter Lane, *British History: 1750 to the Present Day* (Llundain, 1982).

oedd yn cyflogi bron 260,000 o ddynion. Roedd rhaid i'r llywodraeth dalu iawndal i'r cwmnïau hyn cyn gallu rheoli'r pyllau glo. Roedd y broses gyfan yn gymhleth iawn ac yn ddrud iawn. Gwariwyd miliynau ar dalu iawndal, a gwariwyd miliynau'n fwy ar fuddsoddiad mewn technoleg a pheiriannau newydd. Rhwng 1948 ac 1952 buddsoddodd y llywodraeth bron £32 miliwn mewn pyllau glo yn ardal de Cymru yn unig. Er gwaethaf gwrthwynebiad, a'r problemau wrth orfodi gwladoli, roedd y llywodraeth yn rheoli tua 20 y cant o ddiwydiant Prydain erbyn 1950.
Roedd yr hanesydd Kenneth O. Morgan yn credu mai'r polisi gwladoli oedd y peth cywir. Roedd hefyd yn credu bod glowyr Cymru a'u teuluoedd wedi elwa o'r polisi. Mae'n dweud:

I lowyr Cymru a'u teuluoedd, roedd gwladoli'n golygu gwireddu breuddwyd hanner can mlynedd, y wobr am yr holl ddioddef o Ddydd Gwener Du [Streic 1926] ymlaen. Ni chollwyd dagrau dros yr hen berchenogion glo preifat. Gyda'u record wael o ran rheoli'n effeithlon, lefelau cynhyrchiant, diogelwch yn y pyllau ac, yn bennaf oll, eu perthynas â'u gweithwyr, nid oedd ganddyn nhw lawer o ffrindiau. Efallai nad oedden nhw'n haeddu rhai. Yna, fe aethon nhw ati i wrthod mynediad cyhoeddus i haneswyr at eu cofnodion yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a oedd wedi eu rhoi yno ag arian y cyhoedd.
. . . roedd rhoi diwydiannau sylfaenol ym mherchenogaeth y cyhoedd – ac roedd hyn yn cynnwys gwladoli haearn a dur hefyd . . . – yn cyd-fynd â, ac yn helpu i hyrwyddo, awyrgylch o ffyniant a chyd-dynnu ym maes diwydiant Cymru.[39]

## Yr ymateb i bolisïau'r Blaid Lafur ar ôl y rhyfel

Roedd buddugoliaeth etholiadol y Blaid Lafur yn 1945 wedi bod yn syndod mawr, ond roedd ei gorchfygiad etholiadol yn 1951 yn sioc anferthol. Pam? Roedd y llanw wedi dechrau troi yn erbyn y Blaid Lafur erbyn etholiad 1950. Enillodd y Blaid Lafur yr etholiad honno, ond dim ond o drwch blewyn. Er bod llawer o gefnogaeth o hyd i gynlluniau'r Blaid Lafur i gynnal neu hyd yn oed i ymestyn y Wladwriaeth Les, nid oedd y cyhoedd yn barod i dalu'r gost. O dan y Blaid Lafur, roedd trethi wedi cynyddu, ac roedden nhw'n parhau i fod yn uchel yn 1950-1. Roedd y Ceidwadwyr yn gwybod nad oedd trethi uchel byth yn boblogaidd, pa mor gyfiawn bynnag yr achos. Yn anffodus i'r Blaid Lafur, aeth pethau'n waeth pan ddechreuodd Rhyfel Korea yn 1950. Roedd rhaid i lywodraeth Prydain anfon byddin i ymladd ar y cyd â'r Cenhedloedd Unedig. Arweiniodd hyn at ailarfogi, a arweiniodd yn ei dro at drethi a oedd hyd yn oed yn uwch. Roedd y rhyfel yn amhoblogaidd.

Roedd pleidleiswyr dosbarth canol yn arbennig o ddig bod disgwyl iddyn nhw dalu trethi uwch. Er bod y rhyfel wedi dod i ben ers tro, roedd dogni'n parhau. Roedd chwyddiant yn dechrau cynyddu, a oedd yn achosi i brisiau godi. Roedd ymdeimlad cyffredinol yn y wlad bod safonau byw wedi gostwng o dan y Blaid Lafur.

[39] Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Rhydychen, 1981) t. 311.

Roedd ymateb y cyhoedd i'r polisi gwladoli yn gymysg iawn, a oedd yn siomedig. Croesawyd y polisi yn ne Cymru ac roedd yn boblogaidd yng ngogledd Lloegr, ond roedd yr ymateb yn eithaf llugoer mewn mannau eraill. Roedd llawer o bobl yn credu bod y Blaid Lafur wedi mynd yn rhy bell a bod y llywodraeth yn ymyrryd gormod yn y broses o redeg yr economi. Roedd rhai yn ofni y byddai'r Blaid Lafur yn symud oddi wrth sosialaeth at gomiwnyddiaeth pe bai'n ennill buddugoliaeth etholiadol anferthol arall. Roedd y Ceidwadwyr yn chwarae ar yr ofn hwn a dechreuon nhw berswadio pobl y dosbarth canol i droi eu cefn ar y Blaid Lafur.

Ar ôl tua chwe blynedd mewn grym, roedd y llywodraeth Lafur wedi ymlâdd. Roedd rhai o'i haelodau mwyaf talentog naill ai wedi marw, fel Bevin, neu wedi ymddeol, fel Cripps. Roedd aelodau eraill fel Bevan wedi ymddiswyddo am eu bod yn anhapus â rhai o bolisïau'r llywodraeth. Mewn ymgais i uno ei blaid, penderfynodd Attlee alw etholiad. Roedd yn gamgymeriad mawr. Nid oedd gan Blaid Lafur ranedig lawer o obaith yn erbyn Plaid Geidwadol unedig a oedd yn llawn syniadau newydd, a hynny o dan arweiniad yr arwr rhyfel Churchill. O dan y slogan 'Gollyngwch y bobl yn rhydd' (rhag sosialaeth), cafodd y Ceidwadwyr fuddugoliaeth ysgubol yn 1951. Roedd hi'n ymddangos bod breuddwyd y Blaid Lafur ar ben.

Roedd y llywodraeth Lafur yn un o lywodraethau mwyaf radicalaidd yr ugeinfed ganrif. Roedd yn gyfrifol am bolisi gwladoli'r prif ddiwydiannau ac am ddatblygu a gweithredu gwladwriaeth les 'o'r crud i'r bedd'. Hyd heddiw, mae llwyddiant y llywodraeth Lafur wrth iddi greu Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prydain (gwasanaeth sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd) o dan y Gweinidog Iechyd Aneurin Bevan yn cael ei ystyried yn un o'i llwyddiannau pwysicaf.

**Tabl 1: Canlyniadau Etholiadau Prydain (1950-51)**

| | **Ceidwadwyr** | **Llafur** | **Rhyddfrydwyr** |
|---|---|---|---|
| 1950 | 12.5 miliwn pleidlais<br>(43.3% o'r pleidleisiau)<br>298 sedd | 13.3 million votes<br>(46.5% o'r pleidleisiau)<br>315 sedd | 2.6 miliwn pleidlais<br>(9.1% o'r pleidleisiau)<br>9 sedd |
| 1951 | 13.7 miliwn pleidlais<br>(48% o'r pleidleisiau)<br>321 sedd | 13.9 miliwn pleidlais<br>(48.8% o'r pleidleisiau)<br>295 sedd | 0.7 miliwn pleidlais<br>(2.5% o'r pleidleisiau)<br>6 sedd |

Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddarparu i gefnogi addysgu a dysgu TGAU Hanes. Mae'r deunyddiau yn rhoi cyflwyniad i'r prif gysyniadau'r pwnc a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â adnoddau eraill ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth.